# GWELEDIGAETH AR GYFER TYFU CANOLBARTH CYMRU

## Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf

**Mai 2020**

www.tyfucanolbarth.cymru

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales


twitter.com/GrowingMidWales

W www.tyfucanolbarth.cymru

# CYNNWYS


RHAGAIR ..... 4

RHAGAIR – Y GRŴP STRATEGAETH ECONOMAIDD ..... 5

CRYNODEB GWEITHREDOL ..... 6

**ADRAN 1: TYFU CANOLBARTH CYMRU – CYNLLUN ECONOMAIDD STRATEGOL ..... 7**

1 Yr Achos dros Fuddsoddi ..... 9

2 Ein Heconomi ..... 11

3 Ein Cyfle ..... 19

4 Yr Heriau i'w Goresgyn ..... 20

5 Ein Huchelgais ..... 21

6 Ein Blaenoriaethau Twf Strategol ..... 22

7 Ein Cyfraniad ..... 40

8 Gwneud iddo ddigwydd ..... 42

**ADRAN 2: MAP FFORDD AR GYFER BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU ..... 44**

1. Cyflwyniad ..... 45

2. Y Cyd-destun Strategol ..... 46

3. Yr Achos dros Newid ..... 49

4. Yr Achos Economaidd Datblygol ..... 53

5. Achosion Economaidd a Masnachol Datblygol ..... 55

6. Sefydlu'r Achos Ariannol ..... 56

7. Yr Achos Rheoli ..... 57

8. Amserlen Ddangosol ..... 59

9. Ein Hymrwymiad ..... 61

10. Yr Hyn a Ofynnwn gan y Llywodraeth ..... 61

ATODIADAU ..... 62

ATODIAD 1 – Rhestr o Randdeiliaid Ymgysylltiol ..... 63

ATODIAD 2 – Cytundeb Rhyng-awdurdod Tyfu Canolbarth Cymru ..... 64

# RHAGAIR

Mae partneriaid ar draws Canolbarth Cymru wedi bod yn gweithio ers amser tuag at ysgogi twf economaidd rhanbarthol mewn partneriaeth. Ers creu Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn 2015 mae partneriaid cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ar draws y rhanbarth wedi datblygu'r arweinyddiaeth a'r llais angenrheidiol i ddylanwadu a chryfhau'r ffocws ar dyfu Canolbarth Cymru.

Cafodd y rhanbarth ei wahodd yn 2017 i ddatblygu Bargen Twf, ac ers hynny mae partneriaid wedi bod yn gweithio i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth angenrheidiol trwy gyfrwng comisiynau ac ymgysylltu manwl er mwyn adeiladu cynnig credadwy, ochr yn ochr â gweledigaeth ehangach o fuddsoddiad rhanbarthol.

Mae partneriaid rhanbarthol wedi ymrwymo ers tro at weithio gyda'i gilydd mewn modd cydweithredol a thraws-sector at ddiben cyffredin, sef hwyluso a chyflymu twf economaidd trwy un weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth yn y rhanbarth, a bydd y Fargen Twf yn chwarae rhan allweddol yn hyn fel rhan o gymysgedd cyllido ehangach.

Y bwriad gwreiddiol oedd cyhoeddi'r ddogfen hon ym Mawrth 2020, fodd bynnag, ers hynny mae'r byd wedi gweld pandemig y Coronafeirws yn newid ein bywydau bob dydd yn llwyr mewn ffordd nas welwyd erioed o'r blaen. Rydym eisoes yn gweld effeithiau economaidd mawr yn fyd-eang, yn genedlaethol ac ar draws Canolbarth Cymru. Er ein bod ni i gyd yn chwarae ein rhan ar hyn o bryd i helpu ein preswylwyr, busnesau a chymunedau, nid yw unrhyw un yn gwybod graddfa lawn ac amserlenni'r effaith ar ein heconomïau lleol a rhanbarthol.

Fodd bynnag, gwyddom na fydd ateb hawdd. Bydd yn golygu cydgysylltiad ac ymyrraeth polisi cyhoeddus arwyddocaol ar draws pob lefel o'r Llywodraeth i gysoni adnoddau cyhoeddus prin er mwyn bodloni gwir ysgogwyr adfywiad economaidd trwy ddeallusrwydd lleol a rhanbarthol cryf gan fusnesau a chymunedau.  Bydd pwysigrwydd gweithio'n gydweithredol ac am y tymor hir yn hollbwysig i'n hadfywiad a thwf yn y dyfodol.

Felly rydym wedi adolygu'r ddogfen i'w chyflwyno ar frys i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gychwyn trafodaethau ffurfiol ar lunio'r camau nesaf yn ein taith. Er bod amgylchiadau economaidd Cymru wedi newid, mae'r ddogfen yn parhau'n ddilys fel sylfaen o economi Canolbarth Cymru cyn i'r pandemig gydio.

Ar y cam hwn, nid ydym wedi cynnwys unrhyw fanylion ar lefel prosiect, ond yn hytrach fframwaith a map ffordd rydym yn ceisio eu sefydlu gyda chymorth y ddwy Lywodraeth i helpu i lunio manylion ein Bargen Twf o fewn cyd-destun cynllun adfywio rhanbarthol cydweithredol.

Rydym am sicrhau bod Canolbarth Cymru yn cael ei weld trwy lens cyfle a chyflenwi, nid yn unig adfywio, ond hefyd i achub ar y cyfleoedd sydd ar gael i sicrhau potensial buddsoddi ehangach gan weithio mewn partneriaeth gryfach ar yr un pryd ar gyfer y tymor hir.

Bydd hyn yn gofyn am ymdrech sylweddol a pharhaus, ac nid yw'n golygu cefnogi "enillwyr" byrdymor **neu** ddatblygu prosiectau arbenigol. Fodd bynnag, mae'n ymwneud â mabwysiadu dull portffolio realistig, seiliedig ar dystiolaeth at greu newid cadarnhaol, hirdymor a chynaliadwy a fydd yn ysgogi adfywiad ac o fudd i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn hyderus, gyda'r offer, yr adnoddau a'r ffocws iawn, y gallwn gyflawni gwir newid ar gyfer Canolbarth Cymru gyda'n gilydd.




**O'r Chwith i'r Dde: y Cynghorydd Ellen ap Gwynn a'r Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys**

# RHAGAIR – Y GRŴP STRATEGAETH ECONOMAIDD

Mae aelodau'r Grŵp Strategaeth Economaidd yn croesawu'r cyfle i gynghori ar Fargen Twf Canolbarth Cymru o ran twf busnes a sefydlogrwydd. Mae'r Grŵp Strategaeth Economaidd yn ffurfio rhan o'r strwythur a amlinellwyd gan y Llywodraeth i gynnig 'cyfeiriad busnes cryf' i'r Fargen Twf. Rydym yn dod o amrywiaeth o sectorau busnes gan adlewyrchu cynhyrchion, gwasanaethau, mentrau gwyrdd, arloesi, masnach ar-lein, ffermio a phrofiadau byw o safon sydd wedi'u gwreiddio o fewn tirwedd eithriadol ein rhanbarth unigryw.

Deallwn o brofiad y cyfleoedd a'r rhwystrau wrth redeg busnes yng Nghanolbarth Cymru a gallai effaith COVID-19 fod yr her busnes mwyaf a welwyd yn ein hoes. Prin yw'r economegwyr sydd heb ddatgan ein bod yn wynebu dirwasgiad. Ond pwy a ŵyr pa mor hir a pha mor ddwfn y bydd y dirwasgiad hwnnw. Mae'n rhy gynnar i ddeall yn hollol beth yw'r difrod, neu beth fydd bywyd normal newydd. Ond mae ymdrechion byrdymor arwyddocaol y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach i ddarparu cymorth ariannol wedi helpu'n sylweddol. Fodd bynnag, er gwaetha'r mesurau brys hyn, mae nifer o fusnesau yn gorfod addasu, ac ni fydd rhai busnesau yn goroesi'r cyfnod hwn.

Bydd cydrannau allweddol yr adferiad felly yn gofyn am y ddarpariaeth gywir o gymorth a seilwaith i dyfu prosiectau busnes, denu mewnfuddsoddiad, creu hyder a gwella'r canfyddiad o Ganolbarth Cymru fel lle i wneud busnes.  Mae COVID-19 wedi effeithio ar ffrydiau refeniw ond mae hefyd wedi cyflymu tueddiadau busnes a chymdeithasol y mae angen eu cydnabod gyda'i gilydd er mwyn cynorthwyo'r adferiad. Mae penderfyniadau gwybodus a arweinir gan ddeallusrwydd yn allweddol i sicrhau bod gwaddol i'r camau a gymerir a'u bod yn ystyried datblygiadau yn y dyfodol mewn diwydiant, cyflogaeth ac effaith amgylcheddol. Mae system weithredol o sgiliau a phrentisiaethau sy'n hygyrch i bobl ar draws y rhanbarth ac sy'n gweithio i ddiwydiant wedi bod yn allweddol, a bydd yn parhau i fod felly.

Bydd llawer i'w ddysgu o'r pandemig ond mae un peth yn glir, sef nid ydym erioed wedi bod mor ryngysylltiedig, ac erbyn hyn y gymuned o fusnes ydym ni yn hytrach nag y gymuned fusnes. Rydym yn gweithio llai ar ein pennau ein hunain ac mae'r newid hwn nid yn unig yn effeithio ar y gadwyn gyflenwi ond hefyd ar y ffordd rydym yn byw, yn gweithio ac yn cyfathrebu. Gyda hynny mewn golwg, mae gwaith Tyfu Canolbarth Cymru wedi bod hyd yn oed yn fwy perthnasol nid yn unig i gynorthwyo'r adferiad ond i gefnogi mentrau a all ein symud ymlaen gyda'n gilydd yn ystod y cyfnod hwn o newid.

Bydd sicrhau llais cryf i'r sector preifat yn hollbwysig er mwyn sicrhau polisi cyhoeddus ac ymyraethau sy'n hollol gydnaws ag anghenion a disgwyliadau byd busnes. Bydd rôl y Grŵp Strategaeth Economaidd yn ganolog i'r broses ac yn datblygu dros amser. Er gwaetha'r heriau o reoli ein busnesau ein hunain, rydym wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth ac yn barod i roi ein hamser i'r Grŵp Strategaeth Economaidd. Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod ein cyfraniad yn cael ei barchu ac yn creu gwahaniaethau cadarn.

Er bydd y sylfaen economaidd yn y ddogfen hon yn sicr o newid, mae'r dull gweithredu yn parhau'n ddilys o ran cynnig ffordd gydweithredol o weithio sy'n dwyn ynghyd partneriaid rhanbarthol gyda'r Llywodraethau i weithio er mwyn gwella economi Canolbarth Cymru.

Credwn fod cyfleoedd ar gyfer twf a llawer o botensial nas fanteisir arni yng Nghanolbarth Cymru. Mae modd i'r ddwy Lywodraeth, mewn partneriaeth â Chanolbarth Cymru, gysoni uchelgeisiau polisi yn llawn o gwmpas yr economi rhanbarthol yn y tymor hir, gyda'r Fargen Twf yn rhan allweddol o hynny.



**Fiona Stewart**
**Cadeirydd Grŵp Strategaeth Economaidd Tyfu Canolbarth Cymru**



**Steve Hughson**
**Is-gadeirydd Grŵp Strategaeth Economaidd Tyfu Canolbarth Cymru**

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Ysgrifennwyd y ddogfen hon yn bennaf cyn pandemig y coronafeirws. Mae'n amlwg nad ydym yn deall yn llwyr eto effaith yr argyfwng byd-eang hwn ar economïau pob gwlad. Ond yr un sy'n glir yw y bydd yr effaith yn ddwfn ac yn hirhoedlog. Yn hytrach nag oedi'r Fargen Twf er mwyn deall yr effaith yn fwy manwl, mae'n hollbwysig ein bod yn paratoi'r tir nawr ar gyfer yr adferiad a fydd yn sicr o ddilyn. Felly, cyflwynir y ddogfen hon ar y sail bod y dystiolaeth a'r cynigion sydd wedi'u cynnwys ynddi mor berthnasol a phwysig nawr ag erioed o'r blaen.

Mae partneriaeth ranbarthol Tyfu Canolbarth Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Powys a Cheredigion. Mae'r ddau awdurdod wedi bod yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid ers 2015 i wella economi'r rhanbarth. Mae ôl troed daearyddol yr ardal yn cynrychioli 34% o dirfas Cymru sy'n wledig ei natur yn bennaf gyda phoblogaeth o 205,000.

Ceir tystiolaeth gryf dros gefnogi'r achos ar gyfer yr angen i wella economi'r rhanbarth gyda Chynnyrch Domestig Gros (GDP) a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) isel, poblogaeth sy'n dirywio ac yn heneiddio, y rhagolygon ar gyfer llai o gyflogaeth, methiant y farchnad, tâl isel, a thlodi gwledig. Yr hyn sy'n creu'r pryder mwyaf yw dirywiad economaidd disgwyliedig y rhanbarth yn ystod y cyfnod 2018-2040 o 3.45% yn erbyn twf disgwyliedig yn economi'r DU o 7.4%. Mae angen rhoi sylw i'r cylch hwn o ddirywiad ar frys.

Mae aeddfedrwydd partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru wedi cynnig modd ystyried yn ofalus yr hyn a fyddai orau ar gyfer y rhanbarth er mwyn gwyrdroi'r dangosyddion economaidd negyddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Mae datblygiad cyfunol a chynhwysol y cynigion hyn yn dangos bod y bartneriaeth wedi ymrwymo i'r ymyraethau, ac yn berchen ar yr ymyraethau sy'n cael eu datblygu i wynebu'r heriau a nodwyd.

Mae'r rhanbarth wedi ei ffinio gan bedwar ar ddeg o ardaloedd awdurdod lleol, dwy ohonynt yn Lloegr. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gydag awdurdodau a rhanbarthau cyfagos. Mae hyn yn cynnwys yr ardal a gynrychiolir gan Bartneriaeth Menter Leol y Gororau rydym wedi meithrin cysylltiadau agos â hi.


Bydd y rhanbarth yn adeiladu ar gryfderau presennol ar draws nifer o sectorau sy'n cynnwys gweithgynhyrchu uchel ei werth, amaethyddiaeth a bwyd, amddiffyn a diogelwch, a thwristiaeth. Bydd y bartneriaeth yn manteisio ar amrywiaeth o asedau mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys amgylchedd naturiol eithriadol, gallu ymchwil, y sector amddiffyn, gweithgynhyrchu uwch, clystyrau bwyd a diod o safon uchel a datblygedig, a thwf dulliau cynhyrchu ynni, datgarboneiddio a thechnoleg hydrogen.

Mae'r ddogfen hon wedi ei rhannu yn ddwy adran; mae'r cyntaf yn amlinellu'r strategaeth economaidd ar gyfer Canolbarth Crymu. Bydd y strategaeth hon yn sail i'r ymagwedd gyffredinol at welliant economaidd ar gyfer y rhanbarth, a chaiff ei defnyddio i wneud y mwyaf o'r ystod ehangaf o gyfleoedd cyllido sydd ar gael. Mae ail adran y ddogfen yn amlinellu'r ymagwedd at ddatblygu Bargen Twf gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan arwain at Benawdau'r Telerau erbyn hydref 2020. Mae'r ddogfen wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o'r ddwy Lywodraeth i sicrhau bod yr ymagwedd yn gadarn, yn gymesur ac yn realistig.

Nid yw cwantwm y cyfanswm buddsoddiad sy'n deillio o Fargen Twf wedi ei benderfynu'n derfynol ar yr adeg hon oherwydd bod nifer o gyfleoedd yn dod i'r amlwg a byddant yn destun datblygu achos busnes a chraffu cadarn. Fodd bynnag, mae'n glir bod yr ymrwymiad a ddangosir gan bob partner a'r ddwy Lywodraeth yn ceisio wynebu'r heriau a ddisgrifir a'r cyfleoedd a gyflwynir yn nhermau ariannol a thrwy'r ysbryd o bartneriaeth.

# ADRAN 1: TYFU CANOLBARTH CYMRU – CYNLLUN ECONOMAIDD STRATEGOL

*Cartref i dros 205,000 o bobl a dros 12,500 o fusnesau TAW cofrestredig sy'n cynnal 95,500 o swyddi, mae gan Ganolbarth Cymru gryfderau sectoraidd arwyddocaol ym maes amaethyddiaeth, bwyd, twristiaeth, gweithgynhyrchu ac amddiffyn, gyda'r economi ar y cyfan yn cyfrannu oddeutu £3.6bn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) at economi'r DU.*



# 1 Yr Achos dros Fuddsoddi

Ni fu erioed amser mor bwysig i wneud y mwyaf o botensial economaidd Canolbarth Cymru. Mae'r rhanbarth yn adnabyddus fel ardal wledig yn bennaf, gan gyfrif am 34% o dirfas Cymru[1], ond mae'n llai adnabyddus fel rhanbarth lle mae llu o gyfleoedd yn aros i'w datgloi.

Mae cyfleoedd sylweddol gan y rhanbarth i gryfhau sectorau economaidd sy'n bodoli a hybu ysgogwyr economaidd a fydd yn creu twf a buddsoddiad mewn busnesau rhanbarthol a'r farchnad lafur. Ar adeg o ansicrwydd economaidd mawr oherwydd amrywiaeth o ffactorau allanol, mae'n hollbwysig bod pob rhan o Gymru a'r DU yn chwarae ei rôl wrth gryfhau cydnerthedd economaidd a chynhyrchiant eu heconomïau rhanbarthol.

Ceir cyfle pwysig i fanteisio ar uchelgais presennol y sector preifat i ddatblygu asedau o bwysigrwydd rhanbarthol gydag effaith economaidd gweladwy ac arwyddocaol trwy ein cryfderau yn ein gallu ymchwil, tirweddau naturiol, gweithlu medrus a diwydiant.

Fodd bynnag, mae gan economi'r rhanbarth ei heriau. Mae methiant y farchnad yn gyffredin yn dilyn degawdau o danfuddsoddi a dirywiad adeileddol. Er y bu arwyddion calonogol o dwf cyflogaeth a thwf busnes mewn sectorau allweddol ar draws y rhanbarth (adeiladu, twristiaeth, bwyd a gweithgynhyrchu), erys her sylweddol o ran cynhyrchiant oherwydd gwendidau adeileddol sylfaenol yr economi (sylfaen economaidd gymharol gul, cysylltiadau trafnidiaeth gwael, demograffig y boblogaeth sy'n newid) a allai barhau i atgyfnerthu cylch o ddirywiad oni roddir sylw iddo.

Mae'r Cynllun Economaidd Strategol yn tynnu sylw at ein huchelgais cyfunol a'r potensial economaidd ar gyfer Canolbarth Cymru. Mae'n amlinellu'r dyfodol yr hoffem ei adeiladu gyda'n gilydd i gyflawni twf economaidd cynaliadwy a pherthnasol, lle mae digon o gyfleoedd gan ein pobl a'n busnesau i dyfu eu syniadau a meithrin eu potensial. Rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gyhoeddus uniongyrchol mewn seilwaith cyhoeddus a'n gweithlu ochr yn ochr â chyfleoedd buddsoddi preifat mewn asedau rhanbarthol allweddol. Rydym yn hyderus y bydd y dull gweithredu cyfunol hwn yn arwain at ganlyniadau cryf fel rhan o'r ymagwedd tîm.

## 1.1 Diben

Mae'r Cynllun Economaidd Strategol hwn yn chwarae rôl allweddol o ran amlinellu gweledigaeth glir o sut rydym am weld economi Canolbarth Cymru yn datblygu dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'n amlinellu ein blaenoriaethau clir a gytunwyd yn rhanbarthol a fydd yn sefydlu'r cyd-destun strategol ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol, yn seiliedig ar dystiolaeth a dealltwriaeth fanwl o anghenion ein busnesau a'n preswylwyr.

Bydd gwireddu ein huchelgeisiau a chyflawni ein potensial economaidd yn golygu buddsoddiad sylweddol mewn tyfu maint a chynhyrchiant ein heconomi, wedi'i gyllido trwy gymysgedd o raglenni a phrosiectau. Bargen Twf Canolbarth Cymru yw dim ond un rhan o'r jig-so hwn, ond mae'n gydran allweddol i gatalyddu a galluogi buddsoddiad fel rhan o'r cynllun economaidd ehangach hwn.

## 1.2 Tystiolaeth ac ymgysylltu

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei dwyn at ei gilydd yn ailadroddol o'r cynnwys a'r syniadau yn deillio o ymarfer casglu tystiolaeth ac ymgysylltu helaeth ag ystod eang o sefydliadau ac unigolion ar draws Canolbarth Cymru dros y 18 mis diwethaf:

- Strategaeth Cludo Nwyddau y Gororau a Chanolbarth Cymru (2018)

[1] StatsCymru, 2020

- Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru (AECOM, Chwefror 2019)
- Adroddiad Sylfaen Economaidd (AECOM, Chwefror 2019)
- Gweithdai'r Fargen Twf (gwanwyn/haf 2019)
- Trafodaethau 1:1 amrywiol ac ymgysylltu ar draws y ddau awdurdod lleol a gyda rhanddeiliaid allweddol
- Strategaeth Ynni a Chynllun Gweithredu Canolbarth Cymru
- Asesiad o Anghenion a Chynllun Gweithredu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth Canolbarth Cymru

Mae gwaith manwl wedi cael ei wneud i ddiweddaru blaenoriaethau rhanbarthol er mwyn cael gwell gysondeb a rhoi sylw i bolisïau datblygol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, datblygu cynigion ymhellach, ac adeiladu cymorth ychwanegol i ddiwydiant.

Trwy gydol y cyfnod hwn o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu, ymgysylltwyd â nifer sylweddol o randdeiliaid er mwyn llunio a nodi ar y cyd blaenoriaethau sy'n adlewyrchu ein cryfderau rhanbarthol, ond sydd hefyd mewn cytgord â heriau a realiti ein heconomi. Mae rhestr lawn o randdeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy trwy'r broses i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae adeiladu'r ddogfen hon wedi bod yn broses ailadroddol ond mae'n bwysig cydnabod bod ymgysylltu yn broses barhaus. Bydd ein blaenoriaethau fel rhanbarth yn newid dros amser. Bydd y modd y mae angen i ni ymateb i'n hanghenion economaidd a heriau heddiw yn wahanol i'n hymatebion yn y dyfodol.

Dyma gryfder ein hymagwedd. Wrth sefydlu strwythurau llywodraethu cadarn, effeithiol sy'n atebol yn ddemocrataidd yn rhanbarthol ochr yn ochr ag achos cryf dros newid, mae'r ddogfen hon yn mynegi sut y gallwn sicrhau llais rhanbarthol cryf a chyfunol parhaus i helpu i lunio a chyflawni ein blaenoriaethau. Gan Ganolbarth Cymru, i Ganolbarth Cymru.

## 1.3 Y camau nesaf

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio'r sail ar gyfer y modd y bwriadwn fwrw ymlaen â'n Bargen Twf ar gyfer Canolbarth Cymru, a hefyd gwneud yr achos dros fuddsoddiad pellach mewn amrywiaeth o weithgareddau y mae partneriaid rhanbarthol yn teimlo sy'n ofynnol er mwyn catalyddu a gweithredu newid y tu hwnt i'r Fargen Twf.

Mae rhai cynigion yn arloesol, mae rhai yn drawsffurfiol, a bydd rhai yn weddol syml. Fodd bynnag, mae angen y cymysgedd hwn o weithgarwch er mwyn sicrhau newid yn economi Canolbarth Cymru.

Bydd rôl gan y Fargen Twf i'w chwarae o ran cefnogi rhan o hyn, trwy fwrw ymlaen â datblygiad y buddsoddiadau hynny sydd â'r potensial twf a buddsoddi mwyaf posibl. Ond bydd hefyd yn gofyn am fuddsoddiad ehangach, cynaliadwy er mwyn rhoi sylw i wendidau mwy sefydledig a strwythurol.

Nid yw gweithio'n rhanbarthol, ac ni ddylai gweithio'n rhanbarthol rwystro gweithio'n lleol i gefnogi cymunedau a blaenoriaethau lleol nac yn wir gweithio'n ehangach na Chanolbarth Cymru lle mae cyfleoedd yn bodoli. Fodd bynnag, mae partneriaid rhanbarthol wedi cydnabod ers amser y manteision a ddaw trwy weithio mewn partneriaeth ranbarthol i sicrhau canlyniadau na fyddent yn bosibl trwy weithio'n unigol.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i barhau â'r daith y mae Canolbarth Cymru wedi dechrau'n llwyddiannus arni. Bydd y dull hwn o weithredu yn gweld partneriaid ar draws y rhanbarth yn gweithio gyda'i gilydd dros achos cyffredin ochr yn ochr â dilyn eu blaenoriaethau a'u diddordebau lleol eu hunain, er mwyn sicrhau bod manteision ein cyd-ymdrechion yn llawer mwy na'n hymdrechion unigol.

# 2 Ein Heconomi

Mae economi Canolbarth Cymru yn cael ei nodweddu'n aml fel rhanbarth mawr a gwledig yn bennaf sy'n cynnwys 34% o dirfas Cymru[2]. Mae'n adnabyddus am ei harddwch naturiol, hunaniaethau diwylliannol a threftadaeth cryf.


Mae'n llai adnabyddus fel tir o gyfleoedd economaidd digyffwrdd lle mae cyfraddau goroesi busnes yn uwch na chyfartaledd Cymru, lle mae ein hasedau naturiol ac academaidd yn cynnig dewis amlwg ar gyfer ymchwil arloesol gan ddarparu cyfleoedd cryf i greu clystyrau diwydiannol newydd, lle y ceir marchnad lafur cryf ond amrywiol gyda chysylltiadau cymudo strategol o fewn a'r tu allan i'r rhanbarth i rannau eraill o Gymru ac ar draws y ffin i Loegr.

Mae daearyddiaeth economi Canolbarth Cymru yn gydran hanfodol o ran ysgogi a chefnogi twf rhyng-ranbarthol ar draws Cymru a'r DU, lle mae cyfanswm ei effaith economaidd yn fwy na swm ei rannau unigol. Mae'r rhanbarth yn ffinio gogledd a de Cymru yn ogystal â siroedd Swydd Amwythig a Swydd Henffordd yn Lloegr. Mae effaith rhanbarthau eraill ar economi Canolbarth Cymru yn allweddol ac mae angen i gynlluniau adlewyrchu'r rhyng-ddibyniaeth hon.

Mae gan economi'r rhanbarth ei heriau ei hun o ran rhoi sylw i'r gwendidau strwythurol sy'n rhwystro potensial ein preswylwyr a'n busnesau rhag ffynnu ar hyn o bryd. Mae cysylltedd gwael, Gwerth Ychwanegol Gros isel y pen, seilwaith sgiliau cyfyngedig, cyfyngiadau grid a diffyg seilwaith busnes ategol i gyd yn chwarae eu rhan wrth gyfyngu ar botensial y rhanbarth i fanteisio ar ein cyfleoedd.

Fodd bynnag, er nad yw'r heriau a wynebwn yn unigryw, mae'r cyfleoedd sydd gennym yn wahanol ac wedi'u gwreiddio o fewn ein rhanbarth.

## 2.1 Cipolwg sydyn...




[2] StatsCymru, 2020.

Ffynhonnell Data: AECOM (2019) Blaenoriaethau Strategol Economaidd ar gyfer Canolbarth a StatsCymru

## 2.2 Ein Pobl

Mae proffil demograffig y rhanbarth yn creu heriau a chyfleoedd. Gyda phoblogaeth gyffredinol o 205,000, mae Canolbarth Cymru wedi'i nodweddu gan boblogaeth sy'n heneiddio ac allfudo net o bobl ifanc. Ers 2008, mae'r rhanbarth wedi gweld dirywiad cyffredinol yn ei boblogaeth o oddeutu 1.2%.

Mae'r boblogaeth oedran gweithio yn llai na chyfartaledd Cymru a'r DU ac wedi'i nodweddu'n bennaf gan gyfrannau uwch o bobl 50-64 oed a 65+ oed. Ceir cyfran gweddol fach o bobl oedran gweithio oherwydd y cyfrannau uwch o bobl 50-64 oed a 65+ oed. Mewn cymhariaeth, mae gan Ganolbarth Cymru lai o bobl ar gyfartaledd sy'n iau nag oedran gweithio, er bod y ffigurau wedi'u gwyro'n rhannol gan y boblogaeth myfyrwyr mewn lleoliadau allweddol yng Ngheredigion.

Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer Canolbarth Cymru yn amcangyfrif dirywiad o 16% yn y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd o 37% yn y grŵp oedran 65+ hyd at 2039. Oni bai y rhoddir sylw i hyn mae'r tuedd disgwyliedig hwn yn debygol o leihau gweithlu'r rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf.

### *Y Farchnad Lafur*

Mae rhyw 95,400 o bobl mewn cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru, gyda chyfraddau gweithgarwch economaidd sy'n unol â chyfartaleddau Cymru a'r DU, wedi'i ysgogi gan lefelau uchel o hunangyflogaeth. Mae lefelau diweithdra yn y rhanbarth yn gymharol isel ar 2.6% yn Ionawr 2020[3], bron hanner lefel Cymru a'r DU, ac mae'r rhanbarth wedi gweld mwy o welliant mewn niferoedd diweithdra o'i gymharu â Chymru ers 2001. Er gwaethaf hyn, mae tangyflogaeth, enillion isel a chyflogaeth dymhorol yn parhau i fod yn heriau allweddol. Er enghraifft, roedd enillion wythnosol amser llawn cyfartalog yn 93% o gyfartaledd y DU yn 2016 ac yn 94% o gyfartaledd Cymru[4].

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru wedi lleihau gan oddeutu 4%[5]. Mae swyddi wedi'u canolbwyntio'n bennaf ym maes gweinyddu cyhoeddus a llety a gwasanaethau bwyd. Roedd y cynnydd mwyaf mewn twf cyflogaeth yn y gwasanaethau seiliedig ar wybodaeth yn bennaf. Mae sawl sector, gan gynnwys gwybodaeth a chyfathrebu, gweinyddu busnes a gwasanaethau cymorth, a gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol a gweithgynhyrchu yn llai cyffredin yng Nghanolbarth Cymru o'i gymharu â'r DU, ond yn tyfu'n gyflym. Mae'r cyfuniad hwn o ddiffyg cynrychiolaeth ddigonol a thwf deinamig yn dangos y potensial ar gyfer ehangiad pellach y sectorau hyn.

### *Dysgu a Sgiliau*

Mae Canolbarth Cymru yn perfformio'n dda mewn cyrhaeddiad addysgol gyda lefelau cyrhaeddiad ar lefel TGAU yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn isel, tra bo proffil cymwysterau Canolbarth Cymru yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru, ond gyda chyfraddau is o bobl hŷn yn uwchsgilio.

Er gwaetha'r cryfderau hyn, mae bylchau sgiliau ac anawsterau recriwtio yn gyffredin ymysg cyflogwyr Canolbarth Cymru. Mae prentisiaethau a chyflenwi addysg bellach yn cael ei herio

[3] StatsCymru, Ionawr 2020
[4] ONS, Data Cyflogau Wythnosol Cyfartalog, Hydref 2019
[5] StatsCymru, Data Cyflogaeth yn y Gweithle, 2014-2018

gan natur wledig y rhanbarth. Mae buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant yn gymharol isel ar hyn o bryd, gan adlewyrchu o bosib y gyfran uchod o fentrau bach a chanolig.

Mae denu mwy o bobl ifanc i fyw, gweithio ac astudio yng Nghanolbarth Cymru yn hollbwysig ar gyfer twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy. Er mwyn i'r rhanbarth ffynnu rhaid iddo leihau'r tuedd presennol o bobl ifanc yn gadael yr ardal ar gyfer addysg a swyddi, a rhaid iddo allu cadw a denu talent trwy greu cyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel newydd.

### *Amddifadedd*

Mae gan ranbarth Canolbarth Cymru lefel gymharol isel o amddifadedd o'i fesur yn erbyn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a Phowys yw'r ail ardal awdurdod lleol leiaf difreintiedig yng Nghymru. Ond nid yw mesurau ystadegol yn tueddu i ddal gwir natur anfantais wledig. Mae tlodi yng Nghanolbarth Cymru yn amrywiol ac wedi'i guddio'n aml oherwydd natur wledig a demograffeg y rhanbarth, ac felly nid yw crynoadau eglur o dlodi i'w gweld mewn setiau data (ac eithrio o'r pocedi a nodwyd mewn rhai o'n trefi mwy). Mae hyn yn aml yn cuddio amddifadedd gwledig o ran mynediad at wasanaethau, ynysu a thlodi tanwydd ar draws y rhanbarth.

## 2.3 Ein Busnesau

Mae Canolbarth Cymru yn cynnwys 12,660 o fusnesau TAW cofrestredig. Mae gan y sylfaen busnes gyfran uchel iawn (>95%) o ficrofusnesau (<10 gweithiwr). Dim ond 0.8% o fusnesau ar draws Canolbarth Cymru sydd wedi'u dosbarthu fel rhai canolig neu fawr (50+ o weithwyr). Dros y deng mlynedd diwethaf, mae twf yn nifer y busnesau yn y rhanbarth wedi parhau'n weddol digyfnewid ar 2% ac wedi bod ar ei hôl hi yn sylweddol o'i gymharu â Chymru (15%) a'r DU (27%). Fodd bynnag, mae cyfraddau goroesi ar gyfer busnesau newydd ar ôl 5 mlynedd yn llawer gwell yng Nghanolbarth Cymru nag ar gyfer Cymru a Lloegr[6].

Mae'r gyfran fawr o ficrofusnesau ar draws Canolbarth Cymru wedi'i ysgogi'n rhannol gan y nifer uchel o ffermydd a mentrau amaethyddol sy'n cynrychioli 37% o'r holl fusnesau. Mae mentrau canolig yn cael eu gweld yn y sectorau iechyd a gweithgynhyrchu yn bennaf, gan gynrychioli 6% a 5% o gyfanswm y stoc busnes. Mae ardal ddaearyddol fawr a natur wledig Canolbarth Cymru yn golygu bod dwysedd busnes hefyd yn sylweddol is nag yng Nghymru a'r DU.

Adeiladu, llety a gwasanaethau bwyd, gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol a gwasanaethau gweinyddu busnes yw'r sectorau arwyddocaol eraill o ran nifer y busnesau.

Gan adlewyrchu cyfansoddiad sectoraidd busnesau, mae cyflogaeth wedi'i seilio'n drwm ym maes amaethyddiaeth, gyda llety a gwasanaethau bwyd yn sectorau arwyddocaol hefyd, gan ddangos pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i'r rhanbarth. Mae addysg ac iechyd hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at gyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru, gan ddangos rôl allweddol y sector cyhoeddus fel ffynhonnell swyddi yn y rhanbarth, gyda chanolfannau milwrol mewn ardaloedd eraill yn cynnig cyflogaeth leol bwysig.

### *Cryfderau Sectoraidd*

**Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth –** mae dros 8,600 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector cynhyrchu yng Nghanolbarth Cymru. Mae gan y rhanbarth ardaloedd arbenigol o arbenigedd gweithgynhyrchu megis awtomatiaeth, peirianneg symudiad a gwyddorau bywyd.

**Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod** – yn hollbwysig i'r economi ranbarthol, gan gyflogi dros 13,900 o bobl ac yn allweddol i ddiwylliant a chymunedau'r rhanbarth[7]. Mae'r sector yn wynebu

---

[6] Adroddiad Sylfaen Tyfu Canolbarth Cymru, AECOM, 2019
[7] StatsCymru, Cyflogaeth yn y Gweithle, Hydref 2019

heriau posibl ac ansicrwydd wrth ymateb i BREXIT. Ceir cyfleoedd i arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth at y sectorau amaethyddol a bwyd, prosesu cynnyrch amaethyddol, a manteisio ar ymchwil a datblygu a chryfderau'r diwydiant bwyd, ac ystyried pridd, tir a thywydd, megis da byw, yn arbennig cig oen Cymru.

**Amddiffyn a Diogelwch** – mae Canolbarth Cymru yn lleoliad pwysig ar gyfer gweithrediadau amddiffyn y DU, gan fanteisio ar ddaearyddiaeth y rhanbarth a safleoedd diogel. Mae'n gartref i weithgarwch arloesol, gyda gofod awyr ar wahân ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell oddi ar arfordir Gorllewin Cymru, a pharth neilltuedig mewndirol o bron 500 milltir sgwâr tuag at Epynt. Mae gan yr ardal gryfderau ymchwil hefyd sy'n darparu cyfleoedd i sicrhau lle Canolbarth Cymru fel canolfan y diwydiant amddiffyn a diogelwch (e.e. Aber-porth, Aberhonddu, Derin Lines a Phontsenni).

**Twristiaeth –** mae'r sector twristiaeth yn cyflogi dros 23,200 o bobl yng Nghanolbarth Cymru ac mae wedi tyfu'n sylweddol dros y ddeng mlynedd diwethaf[8]. Mae asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth y rhanbarth yn golygu bod llawer o gyfleoedd i ychwanegu gwerth at sector twristiaeth y rhanbarth ac yna cynyddu'r cyfraniad at economi Cymru, gan roi sylw i ledaenu natur dymhorol a gwariant. Mae hyn yn cynnwys y cysylltiadau diwylliannol cryf a ddatblygwyd fel rhan o brosiectau Iwerddon a Chymru, a'n hasedau naturiol ein hunain: Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ein Llwybr yr Arfordir ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol.

## *Cynhyrchiant*

Mae Canolbarth Cymru yn cyfrannu £3.6bn mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) at economi'r DU (sy'n gyfystyr â £17,509 y pen)[9]. Mae hyn ymysg yr isaf yn y DU ac yn cymharu â £65.1 biliwn (£20,738 y pen) ar gyfer Cymru, gyda Chanolbarth Cymru yn cyfrannu oddeutu 5.5% o'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) a gynhyrchir gan economi Cymru, cyfran sydd wedi parhau bron yn gyson dros yr ugain mlynedd diwethaf. Powys sy'n cofnodi'r perfformiad isaf ar gyfer Gwerth Ychwanegol Gros yr awr a weithir o bob ardal ar draws y DU, ac mae ar ei hôl hi'n sylweddol o'i gymharu â gweddill Cymru (82% o gyfartaledd Cymru) a'r DU (65% o gyfartaledd y DU).

Mae ysgogwyr y tueddiadau hyn yn gymhleth ac i'w priodoli'n bennaf i strwythur cyflogaeth gan gynnwys cyflogaeth dymhorol a phresenoldeb sectorau gwerth ychwanegol isel ar draws y rhanbarth. Y cyfranwyr mwyaf fesul sector i Werth Ychwanegol Gros y rhanbarth yw gweithgynhyrchu, gwerthu tai, cyfanwerthu a manwerthu. Mae hyn yn cyferbynnu'n fawr â'r dadansoddiad o gyflogaeth yn y rhanbarth sy'n dangos bod amaethyddiaeth yn dominyddu, sector sy'n uchel yn nhermau cyflogaeth ond sy'n darparu Gwerth Ychwanegol Gros isel i economi Canolbarth Cymru.

## *Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth*

Mae sicrhau'r cyflenwad a'r lleoliad cywir o dir ac eiddo cyflogaeth er mwyn ateb anghenion busnes yn gydran hollbwysig o gefnogi gallu'r economi i gystadlu. Mae'r farchnad safleoedd ac adeiladau cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru yn wahanol i ranbarthau cyfagos. Daw'r rhan fwyaf o'r galw gan fusnesau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth. Ceir amrywiadau daearyddol pwysig gydag ardaloedd is-farchnad megis Aberystwyth, Severn Valley ac Aberhonddu yn profi mwy o alw a bwlch mewn safleoedd â gwasanaeth. Mae hyn yn cymharu â lleoliadau gwledig mwy anghysbell, rhai ohonynt sydd heb weld llawer neu unrhyw ddatblygiad dros y blynyddoedd diwethaf. Ceir diffyg cydnabyddedig o argaeledd a buddsoddiad mewn adeiladau cyflogaeth modern a thechnegol ar draws y rhanbarth gyda lefelau isel o hap-ddatblygu a phroblemau hyfywedd masnachol mewn darpariaeth. Mae

[8] StatsCymru, Cyflogaeth yn y Gweithle, Hydref 2019
[9] StatsCymru, Rhagfyr 2019

methiant y farchnad yn golygu bod bwlch hyfywedd amcangyfrifedig o ~60%, gyda gwaith manwl pellach yn parhau i sefydlu'r achos dros fuddsoddiad rhanbarthol.

### *Ynni*

Mae Canolbarth Cymru mewn sefyllfa dda i wireddu uchelgais Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r economi carbon isel a thwf glân. Mae'r rhanbarth yn cyfrif am 6% o'r defnydd ynni yng Nghymru, tra bo cyfanswm defnydd ynni wedi lleihau gan 14% ers 2005 (cyfartaledd o 1% y flwyddyn). Mae'r allyriadau dilynol o'r defnydd ynni wedi lleihau gan oddeutu 20% ers 2005 a bron 40% ers 1990[10]. Mae'r rhanbarth yn cynhyrchu 97% o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio o ffynonellau adnewyddadwy lleol a gyflenwir yn bennaf gan ffermydd gwynt ar y môr (270MW), gan ffurfio 72% o ynni a gynhyrchir a 66% o gapasiti, tra bo paneli solar ffotofoltaig (51MW) yn cyflenwi oddeutu 6% o ynni adnewyddadwy[11].

Mae capasiti'r grid yng Nghanolbarth Cymru yn gyfyngiad arwyddocaol i dwf yn y dyfodol. Mae mynediad i'r rhwydwaith ynni ar gyfer cwsmeriaid domestig wedi ei gyfyngu tra bo'r gost arwyddocaol sy'n gysylltiedig ag atgyfnerthu'r grid wedi dal buddsoddiadau yn ôl ymhellach. Gan fod y rhanbarth yn deall graddfa'r buddsoddiad sydd ei angen i ddatrys y broblem hon, mae'r ffocws ar gynhyrchu ynni lleol, yn enwedig ynni o natur carbon isel. Mae enghreifftiau o sut y gall buddsoddiad o fewn y rhanbarth wneud y defnydd gorau o ffynonellau ynni amgen wedi'u disgrifio yn adran 6.4. Ar hyn o bryd, mae'r galw blynyddol am drydan yn y rhanbarth yn 0.94 Twf ac mae dros 50% o hynny yn cael ei ddefnyddio gan y sector masnachol a diwydiannol. Dim ond 12% o'r galw masnachol a diwydiannol sy'n cael ei ateb gan nwy, gan adlewyrchu natur cartrefi nad ydynt ar y grid nwy yn y rhanbarth. Mae'r galw am ynn diwydiannol wedi lleihau gan 10% ers 2005 ac mae allyriadau wedi lleihau gan 37%, yn bennaf oherwydd datgarboneiddio grid trydan y DU[12].

Mae gan Ganolbarth Cymru y gyfran uchaf o eiddo nad ydynt ar y grid nwy yng Nghymru sef 62%. Mrs effeithlonrwydd ynni domestig yn weddol wael ac mae 15.5% o gartrefi yn y rhanbarth yn byw mewn tlodi tanwydd. Fodd bynnag mae gan y rhanbarth y nifer mwyaf o osodiadau gwres adnewyddadwy yng Nghymru gyda bron 2% o gartrefi sydd â phwmp gwres neu foeler biomas.

## 2.4 Ein Cysylltiadau

### *Cysylltedd digidol*

Ar hyn o bryd mae lefelau cysylltedd digidol yng Nghanolbarth Cymru ar ei hôl hi'n sylweddol o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru a'r DU. Mae gan oddeutu 81% o'r eiddo yng Nghanolbarth Cymru y gallu i gysylltu â Band Eang Cyflym Iawn (30Mbps+), sy'n is nag ar gyfer Cymru (95%) a'r DU (96%). Dim ond 19% o'r rhanbarth sydd â mynediad i Fand Eang Gwibgyswllt (100mbps+) o'i gymharu â Chymru (39.5%) a'r DU (60%), tra y gall 14.6% o eiddo yng Nghanolbarth Cymru gael mynediad i gysylltiad band eang o 10Mbps yn unig o'i gymharu â 3.4% ar gyfer Cymru a 2.4% ar gyfer y DU[13]. Amcangyfrifir bod gan y rhanbarth dros 20,000 o 'eiddo gwyn' nad ydynt yn gallu derbyn band eang cyflym iawn ar hyn o bryd (30Mbps) neu lle nad oes unrhyw gynlluniau i ddarparu gwasanaeth o'r fath yn ystod y 3 blynedd nesaf (21% o gyfanswm Cymru).

Mae signal ffonau symudol yng Nghanolbarth Cymru yn parhau i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU, gyda thopograffeg a dwysedd is y boblogaeth yn creu heriau

---

[10] Llywodraeth Cymru (2019) Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2018
[11] Cyfanswm terfynol defnydd ynni yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (2019)
[12] Allyriadau is-genedlaethol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr NAEI Cymru
[13] Think Broadband, Mawrth 2020

arbennig o ran gwella'r signal ffonau symudol yn y rhanbarth. Nid oes gan 9.5% o eiddo unrhyw wasanaethau 4G ar draws y rhanbarth a dim ond 53.6% o eiddo sydd â gwasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr o'i gymharu â Chymru (73%) a'r DU (80%)[14].

Mae cysylltedd digidol yn hollbwysig i economi Canolbarth Cymru a'i allu i gystadlu er mwyn sicrhau enillion cynhyrchiant, arloesi a gwell mynediad i wasanaethau a marchnadoedd. Mae angen i fuddsoddiad mewn anghenion seilwaith digidol gael ei flaenoriaethu os yw Canolbarth Cymru am gystadlu â'r rhanbarthau eraill a manteisio ar gyfleoedd economaidd newydd.

## *Trafnidiaeth*

Mae cysylltedd trafnidiaeth y tu mewn a'r tu allan i Ganolbarth Cymru yn allweddol i lifoedd economaidd a thwf yn y dyfodol. Mae gan y rhanbarth 945 km (587 milltir) o gefnffyrdd a ffyrdd A sy'n cysylltu'r rhanbarth â Gogledd a De Cymru ac i'r dwyrain i Orllewin Canolbarth Lloegr. Ceir dau goridor rheilffyrdd hefydd (Prif Lein y Cambrian/Arfordir y Cambrian a lein Calon Cymru) sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae cysylltiadau rheilffyrdd yng Nghanolbarth Cymru wedi'u nodweddu gan amlder gwasanaeth isel, cyflymder lein araf a gwasanaethau uniongyrchol cyfyngedig i brif ddinasoedd y DU, a'r unig brif wasanaeth rheolaidd yw'r gwasanaethau trwyddo bob dwy awr o Aberystwyth i Birmingham International.

Mae angen gwella dibynadwyedd a chapasiti amserau teithio trwy wella diogelwch a chydnerthedd y rhwydwaith i gefnogi a thyfu'r newid i economi carbon isel. Mae buddsoddi mewn llwybrau allweddol megis Ffordd Osgoi yr A483/A489 y Drenewydd a'r A487 Pont Dyfi i'r gogledd o Fachynlleth yn cydnerthu rhwydwaith ffyrdd Canolbarth Cymru. Mae angen buddsoddiad parhaus i ddiogelu'r coridorau strategol hyn o symud llafur a nwyddau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â'r llwybrau trawsffiniol A483, A458 a'r A44 ar draws y rhanbarth.

Oherwydd ei natur wledig, mae Canolbarth Cymru yn dibynnu'n fawr ar geir preifat ar gyfer trafnidiaeth ac mae llai nag 1% o filltiroedd ffyrdd yn cael eu gyrru gan fysiau. Mae'r defnydd o gerbydau trydan yn is na'r cyfartaledd yn y rhanbarth gyda mannau gwefru cyfyngedig o'i gymharu â chyfartaledd y DU.


## *Ffrindiau a Chymdogion*


Mae Canolbarth Cymru wedi'i leoli'n ganolog gyda chysylltiadau economaidd a chymdeithasol cryf â'n ffrindiau a'n cymdogion i'r gogledd, i'r de ac i'r dwyrain ac ar draws i Loegr. Bydd cydweithredu agos parhaus â'n cymdogion yn hanfodol os ydym am wireddu ein dyheadau ar gyfer twf parhaus ein heconomïau. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r holl bartneriaid sy'n ffinio'r rhanbarth ac yn arbennig Partneriaeth Menter Leol y Gororau er mwyn i ni allu ychwanegu gwerth at Fargeinion Twf ein gilydd.

Mae gan Ganolbarth Cymru nifer o goridorau trafnidiaeth strategol allweddol y mae pobl a chadwyni cyflenwi ar draws Cymru a Lloegr yn dibynnu arnynt yn ddyddiol. O fewn Cymru, mae nifer o'n preswylwyr yn cymudo i'r gwaith i ardaloedd yng Ngogledd a De Cymru bob dydd ar hyd prif rwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd gyda chysylltiadau cymudo a chludo nwyddau pwysig ar draws i Loegr a'r Gororau. Mae'r heriau trawsffiniol hyn eisoes wedi cael eu cynnwys yn Strategaeth Cludo Nwyddau y Gororau a Chanolbarth Cymru, a ddatblygwyd ac a gytunwyd mewn partneriaeth drawsffiniol.

---

[14] OFCOM, Cysylltu'r Gwledydd 2019 – Adroddiad Cymru




Mae pwysigrwydd y cyswllt trawsffiniol hwn yn hollbwysig i ffyniant parhaus Canolbarth Cymru a hefyd y Gororau, a cheir partneriaeth barhaus gryf rhwng sefydliadau a'r Llywodraeth ar ddwy ochr y ffin.

Mae hyn wedi arwain at nifer o fentrau gweithio ar y cyd sy'n ceisio datgloi buddion pellach ar gyfer ein heconomi gyfunol, a'r un diweddaraf yw strategaeth cludo nwyddau ar y cyd Canolbarth Cymru a'r Gororau sy'n ceisio datgloi £149m o gyllid ar gyfer ein heconomïau.

Bydd gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru yn gofyn am elfen gryf o gydweithredu ar draws ffiniau'r awdurdod lleol a'r Llywodraeth, a bydd nifer o opsiynau yn bodoli i'w gwireddu er budd pob rhan o'n rhanbarth a daearyddiaeth economaidd ehangach.

## *Tai*

Mae profiad yn dangos er mwyn sicrhau twf economaidd cynaliadwy mewn economi megis Canolbarth Cymru, rhaid bod sail i'r mesurau sy'n ceisio gwella sgiliau a sicrhau bod busnes yn fwy cystadleuol. Cyflawnir hyn gan strategaeth sy'n ceisio creu'r amodau ar gyfer twf sy'n gydnaws â strategaeth dai sy'n ceisio sicrhau tai mewn lleoliadau priodol a chyfleus ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio a phobl ifanc.

Er bod gan Ganolbarth Cymru lifoedd cymudo cryf gyda'i awdurdodau cyfagos, mae'r gyfradd gyfyngiad o fewn marchnad lafur Canolbarth Cymru yn uchel gyda nifer o bobl yn byw ac yn gweithio'n lleol.

Yn hanesyddol, nid yw adeiladu tai yn y rhanbarth wedi cadw i fyny â'r galw a'r dyraniadau hanesyddol gyda heriau wrth gyflenwi a darparu tai yn y rhanbarth. Mae adeiladu tai yn rhanbarthol yn weddol sefydlog ar hyn o bryd, gyda 52 o dai wedi'u cwblhau ym Mhowys yn y flwyddyn ddiwethaf, a 97 o dai pellach wedi'u cwblhau yng Ngheredigion.[15].

Yn wyneb yr uchelgais ar gyfer twf a amlinellir yn y Cynllun Economaidd Strategol hwn, bydd rhaid i'r rhanbarth weithio gyda rhanddeiliaid polisi a chyflenwi perthnasol yn ofalus er mwyn sicrhau pan fydd cynigion yn datblygu gall y rhanbarth ymateb yn rhagweithiol gydag ymyraethau polisi a chyflenwi.

Mae'r ffigurau darpariaeth tai cyfredol fel y nodir yng Nghynlluniau Datblygu Lleol y ddau awdurdod lleol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd erbyn haf 2020, a bydd dadansoddiad pellach yn cael ei wneud[16] a fydd yn helpu i lywio cynigion polisi a chyflenwi.

Bydd hyn yn golygu bod cyfle gennym i sicrhau cyfatebiaeth agos rhwng y broses gynllunio defnydd tir â blaenoriaethau twf economaidd sy'n dod i'r amlwg a fydd ymhen amser yn troi'n gynigion cyflenwi diriaethol.

---

[15] Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru (2019) Adeiladu Tai Newydd yng Nghymru 2018-19

[16] BE Group, Hatch, Per Consulting (2020) Asesiad o Anghenion a Chynllun Gweithredu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth Canolbarth Cymru

# 3 Ein Cyfle

Mae treftadaeth a tharddiad cryf gan Ganolbarth Cymru mewn diwydiannau a sectorau allweddol gan gynnwys twristiaeth, gweithgynhyrchu cymhwysol, amaethyddiaeth, bwyd a diod, amddiffyn a diogelwch. Ceir datblygiadau pwysig hefyd mewn asedau angori rhanbarthol sy'n darparu cyfleoedd pwysig i gynhyrchu twf newydd. Bydd pwysigrwydd a photensial twf arwyddocaol economi sylfaenol y rhanbarth hefyd yn cynnig cyfle allweddol i gefnogi twf gwasgaredig a chynhwysol.

## 3.1 Ysgogwyr ac Asedau Allweddol Presennol

- **Cyfoeth o asedau naturiol eithriadol**, o harbwrs a dyfrffyrdd, mynyddoedd a thirweddau dynodedig, digwyddiadau a phrofiadau, atyniadau a chyrchfannau, parciau cenedlaethol ac awyr dywyll y rhanbarth sydd i gyd yn cyfrannu at gynnig twristiaeth o safon fyd-eang a allai gynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant/incwm trwy gydol y tymor.
- Manteisio ar **allu ymchwil, asedau a chadwyni cyflenwi sy'n bodoli o weithgarwch profi a gwerthuso presennol.** Gyda chanolfannau milwrol, gofod awyr ar wahân ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell oddi ar arfordir Gorllewin Cymru ac ar y tir tuag at Epynt a phresenoldeb academaidd ac ymchwil cryf a chysylltiadau diwydiant lleol.
- Lledaenu potensial twf **clystyrau diwydiannol sy'n bodoli o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch.** Mae meysydd unigryw o arbenigedd megis awtomatiaeth, peirianneg symudiad a biotechnoleg/gwyddorau bywyd yn cynnig cyflogaeth uchel ei werth a photensial twf cynhyrchiant.
- Galluogi'r cyfleoedd a ddaw o **botensial academaidd ac ymwelwyr cynaliadwy a charbon isel, megis Ganolfan y Dechnoleg Amgen** i gefnogi'r economi ehangach ac ysgogi twf economaidd pellach a datblygu sgiliau.
- Manteisio i'r eithaf ar botensial **arbenigeddau rhanbarthol** mewn sectorau gwerth uchel ac ymchwil dwys sydd â'r potensial i ddenu talent a buddsoddiad, megis **cryfderau sy'n datblygu ym maes sbectrwm, milfeddygaeth, TB a Dynol (One Health) a hydrogen.**
- **Campws Arloesi a Menter Aberystwyth** (ArloesiAber) a fydd yn agor yn 2020 ochr yn ochr â gorsaf drenau newydd Bow Street i sicrhau bod ei gyfleusterau o safon fyd-eang mewn biotechnoleg, technoleg amaethyddol, bwyd a diod yn troi'n dwf economaidd cyflym, uchel ei werth.
- Manteisio ar ddatblygiad posibl **Canolfan Fyd-eang o Ragoriaeth Rheilffyrdd yn Ystradgynlais.** Bydd hyn yn gweld yr unig gyfleusterau profi rheilffyrdd o'i fath yn y DU, a bydd yn ganolbwynt i waith ymchwil a datblygu ar draws Ewrop, gan gynnig y potensial ar gyfer twf economaidd arwyddocaol ymysg y gadwyn gyflenwi leol a rhanbarthol.
- Adeiladu ar gryfderau'r **clwstwr bwyd a diod ar draws Canolbarth Cymru**, gan gefnogi Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru ac ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol a chefnogi arallgyfeirio ar ffermydd. Mae cryfderau presennol yng Nghanolfan Bwyd Cymru a tharddiad a hunaniaeth bwyd yn cael eu harddangos fel rhan o'r Sioe Frenhinol.
- Potensial twf economaidd Canolbarth Cymru **sy'n arwain y DU ar ymyraethau cynhyrchu ynni a datgarboneiddio** sy'n gallu cryfhau clwstwr rhanbarthol gan gynnwys cyfraniadau cyflogaeth a chynhyrchiant cryf.
- Cyfleoedd pwysig i **lunio cymorth busnes a chysoni'r seilwaith sydd ar gael** (digidol, corfforol, tir ac eiddo) **er mwyn rhoi cymorth gwell i fusnesau ar draws Canolbarth Cymru.** Ceir cyfleoedd arwyddocaol i ddangos gwelliannau cadarnhaol i gyflenwi gwasanaeth ar draws y sector cyhoeddus a chysoni cymorth i dyfu ein busnesau llai i greu mentrau canolig.
- Manteisio ar ddatblygu asedau addysgol y rhanbarth ymhellach, gan gynnwys y ddwy brifysgol yn y rhanbarth, sef Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

# 4 Yr Heriau i'w Goresgyn

Ers sefydlu Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn 2015, mae partneriaid wedi gweld cymorth yn cryfhau ar gyfer tyfu a chanolbwyntio ar economi Canolbarth Cymru. Er bod llawer wedi cael ei gyflawni i sicrhau ffocws cryf ar geisio twf economaidd rhanbarthol, mae angen gwneud mwy. Bydd angen dulliau gweithio llawer cryfach a chydnabod economi Canolbarth Cymru ar draws sectorau a sefydliadau gyda chymorth llawn y ddwy Lywodraeth nid yn unig i gefnogi cyfleoedd twf ond hefyd i fuddsoddi yn ein seilwaith economaidd a chymdeithasol sylfaenol.

## 4.1 Perfformiad economaidd

Er gwaethaf nifer o gyfleoedd a gwelliannau cadarnhaol yn yr economi ranbarthol, mae Canolbarth Cymru yn parhau i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau eraill yng Nghymru a'r DU ar nifer o faterion allweddol:

- **CYNHYRCHIANT ISEL SYDD AR EI HÔL HI:** Mae Canolbarth Cymru yn parhau i fod ar ôl rhanbarthau eraill Cymru a'r DU yn nhermau real a fesul pen oherwydd natur dymhorol a strwythur ei sylfaen gyflogaeth.
- **POBLOGAETH SY'N DIRYWIO AC YN HENEIDDIO:** mae hyn yn dangos ffigurau poblogaeth sy'n lleihau a demograffig sy'n newid a 'chanol cywasgedig' o boblogaeth hŷn weddol uchel a phoblogaeth oedran gweithio gyfatebol isel.
- **SYLFAEN ECONOMAIDD GUL A BREGUS:** Gan arwain at anghydbwysedd mewn cyflogaeth a chynhyrchiant. Y cyfranwyr mwyaf at Werth Ychwanegol Gros yw gweithgynhyrchu, gwerthu tai, cyfanwerthu a manwerthu, ac er bod amaethyddiaeth yn cyflogi'r nifer fwyaf o bobl mae'n cyfrannu Gwerth Ychwanegol Gros cymharol lai. Mae natur dymhorol cyflogaeth hefyd yn ychwanegu at economi fregus.
- **DIRYWIAD DISGWYLIEDIG MEWN CYFLOGAETH:** mae'r rhagolygon yn dangos y bydd economi Cymru wedi tyfu gan 1.7% yn ystod y cyfnod 2018-2040 (+ 24,000 o swyddi) tra y disgwylir i economi Canolbarth Cymru ddirywio 3.45% (lleihad o 3,352 o swyddi), tra bo disgwyl i'r DU dyfu gan 7.4% dros yr un cyfnod.
- **MARCHNAD LAFUR SEFYDLOG AC SY'N GWANHAU:** mae bylchau mewn darpariaeth sgiliau a seilwaith er mwyn bodloni gofynion y diwydiant yn ddigonol yn cael eu gwaethygu gan ddiffyg ffocws ar y mater yng Nghanolbarth Cymru. Mae gwendidau yn y seilwaith sgiliau rhanbarthol yn gwaethygu'r diffyg cyfleoedd cyflogaeth ac addysgol gan arwain at lai o gydraddoldeb cyfle a symudedd llafur ac atgyfnerthu allfudo yr un pryd. Mae all-lifoedd cymudo Powys o -3,495 yn arbennig yn tynnu sylw at yr angen i wella cyfleoedd cyflogaeth.
- **METHIANT Y FARCHNAD:** Mae gwendidau economaidd strwythurol sylfaenol ynghyd â degawdau o danfuddsoddi gan y sector cyhoeddus wedi gwaethygu methiant y farchnad. Mae methiant y farchnad i'w weld trwy'r economi gyfan a cheir tystiolaeth glir o hyn yng nghyfraddau adeiladu masnachol a phreswyl weddol sefydlog a gwan, sylfaen busnes sy'n dirywio ac yn culhau, a chyflwr annigonol ein seilwaith grid digidol, ffyrdd ac ynni lle mae angen mawr am ymyrraeth gan y sector cyhoeddus.
- **NATUR GUDD ECONOMI WLEDIG:** mae data cyflogaeth gweddol gryf a diweithdra isel yn cuddio tâl isel a thangyflogaeth. Mae'r data hunangyflogaeth a gweithio o gartref uchel ar y cyd ag incwm isel yn cuddio tlodi gwledig sy'n gwir achos o bryder ymysg awdurdodau lleol a llunwyr polisïau.

Bydd rhoi sylw i'r materion hyn yn gofyn am newid sylweddol yn y ffordd rydym yn gweithio ar y cyd, a bydd yn gofyn am gyfres arwyddocaol o ymyraethau i roi sylw i'r tueddiadau trwy ddarparu'r sail ar gyfer twf economaidd gwerth uwch newydd, a denu poblogaeth newydd sy'n symudol yn economaidd. Ni fydd yn hawdd mynd i'r afael â'r materion hyn, nac yn rhad. Fodd bynnag, rydym yn glir fel rhanbarth os ydym am weld yr economi ranbarthol yn perfformio fel y dylai, ac os ydym am fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i ni, yna mae'n rhaid i hyn fod yn ffocws cyffredin i'r partneriaid rhanbarthol a'r ddwy Lywodraeth.

# 5 Ein Huchelgais

Ein huchelgais yw i Ganolbarth Cymru fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i greu a chefnogi twf economaidd a chymdeithasol trwy oresgyn ei heriau i fod yn rhanbarth tecach a challach sy'n cyfrannu at ei botensial llawn er mwyn rhoi sylw i'w her cynhyrchiant.

## 5.1 Ein Gweledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru yn 2035

Erbyn 2035 bydd Canolbarth Cymru yn:

***"Rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n cyflawni twf economaidd wedi'i ysgogi gan arloesedd, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog."***

Trwy weithio'n gydweithredol ac mewn modd integredig, byddwn yn adeiladu ar ein hasedau unigryw i sicrhau bod economi'r rhanbarth yn cael ei hadnabod am y nodweddion canlynol:

**MENTRUS – ar agor i fusnesau, hen a newydd. Lle i ddechrau a thyfu menter i wella cynhyrchiant rhanbarthol gyda safon dda o fywyd.**

**MEDRUS** – marchnad lafur fedrus a hyblyg a gefnogir gan ddysgu academaidd a galwedigaethol sy'n ymateb i alwadau diwydiant gan wrthdroi tueddiadau poblogaeth presennol.

**ARLOESOL** – lle ar gyfer arloesi, datblygu cynhyrchion a phrosesau newydd ac sy'n manteisio ar gryfderau ymchwil a diwydiant presennol ac yn creu clystyrau diwydiannol newydd/cryfhau'r rhai sydd eisoes yn bodoli.

**CYSYLLTIEDIG** – rhanbarth sydd wedi'i gysylltu'n llawn, gan ddatgloi ei botensial economaidd, ysgogi twf busnes ac arloesi a gwella symudedd cymdeithasol a llafur.

**CYNHYRCHIOL** – economi gryf a chynhyrchiol sy'n darparu'r amodau iawn i fusnesau gynhyrchu swyddi o safon well, gyda thâl uwch ochr yn ochr â chyfleoedd cyflogaeth gwell.

**FFYNIANNUS** – economi ranbarthol sydd wedi'i gwreiddio mewn tegwch a chydraddoldeb cyfle gyda llwybrau hyfforddi a chyflogaeth hygyrch.

**UNIGRYW** – rhanbarth gyda thirwedd a threftadaeth naturiol a diwylliannol unigryw, sy'n cynnig safon bywyd eithriadol a'r potensial i arwain datgarboneiddio a thwf glân yn y DU.

# 6 Ein Blaenoriaethau Twf Strategol

Mae economi Canolbarth Cymru yn bodoli mewn cydbwysedd bregus iawn, gyda nifer o ddiwydiannau a sectorau yn rhyng-ddibynnol ar ei gilydd oherwydd gwneuthuriad strwythurol cyfredol ei daearyddiaeth naturiol ac economaidd.

Bydd tyfu economi Canolbarth Cymru yn gofyn am ymagwedd gadarn, cyson, â ffocws er mwyn creu twf economaidd ystyrlon. Fodd bynnag, rhaid i dwf o'r fath fod yn sensitif i'w amgylchedd cymdeithasol a naturiol trwy ddilyn dull gweithredu cytbwys. Dull gweithredu cytbwys nad yw'n buddsoddi mewn cyfle yn unig, ond un sydd hefyd yn rhoi sylw i wendidau strwythurol sylfaenol ochr yn ochr â chyfleoedd twf, gan gynyddu uchelgais ochr yn ochr â lleihau anghydraddoldeb.



## 6.1 Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod

**Mae sector amaethyddol cryf a bywiog sy'n creu cyflogaeth arwyddocaol ac sy'n cynhyrchu i safon a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ar y cyd â chryfderau diwydiannol ac arloesi yn cynnig cyfle i dyfu'r sylfaen economaidd yn sylweddol ac arwain at ddatblygu bwyd uchel ei werth newydd.**

Mae Canolbarth Cymru yn gartref i 935[17] o fentrau cysylltiedig â bwyd, gyda chrynoadau yn y Trallwng, y Drenewydd, Llanymynech, Trefyclo, Aberystwyth a Felin-fach. Mae hyn yn cael ei gyfnerthu'n rhanbarthol gan bresenoldeb Canolfan Bwyd Cymru, canolfan technoleg bwyd benodedig sy'n cynnig cyngor, gwasanaethau technegol a hyfforddiant i fusnesau newydd, mentrau bach a chanolig, a gweithgynhyrchwyr bwyd sy'n bodoli i ddatblygu cadwyni cyflenwi byr, ychwanegu gwerth at gynhyrchion, annog cynhyrchion arloesol a sicrhau ffocws ar ansawdd. Mae'n ffurfio rhan o gydweithrediad Arloesi Bwyd Cymru o ganolfannau bwyd sy'n darparu cymorth trosglwyddo gwybodaeth dechnegol ar draws Cymru gyfan.

Mae'r sector wedi'i gefnogi ymhellach yn y rhanbarth trwy bresenoldeb sefydliadau cymorth strategol allweddol sydd â'u pencadlys o fewn ei ffiniau, gan gynnwys Menter a Busnes, Hybu Cig Cymru, Lantra, Cambrian Training yn ogystal â dau brif undeb amaethwyr (FUW a NFU). Mae presenoldeb Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn y rhanbarth hefyd yn ysgogwyr allweddol ar gyfer yr economi a'r sector trwy arddangos amaethyddiaeth a bwyd a diod rhanbarthol. Bydd ychwanegu Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (ArloesiAber) eleni yn ychwanegu ymhellach at yr adnoddau sydd ar gael i helpu'r sector i dyfu, gan edrych ar gynhyrchu bwyd yn y dyfodol.

Er bod yr holl gyfleusterau hyn yno i gefnogi'r diwydiant ar draws Cymru, ceir cyfle i fanteisio ar eu presenoldeb yng Nghanolbarth Cymru ac ysgogi twf yn y sector, gan ychwanegu gwerth i'r busnesau bwyd a ffermio sydd eisoes yn bwysig yn economaidd i'r rhanbarth, ond a allai dyfu ymhellach gydag ymyrraeth a chymorth wedi'i dargedu.

### *Potensial Twf Economaidd*

Mae 10,275 o bobl wedi'u cyflogi yn y diwydiant bwyd yng Nghanolbarth Cymru. Fel cyfran o'r cyfanswm cyflogaeth, mae Canolbarth Cymru (13.6%) yn fwy na chyfartaledd Cymru (13.0%) a'r DU (11.7%). Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod nifer y busnesau bwyd o'i gymharu â'r cyfanswm stoc busnes yr is yng Nghanolbarth Cymru (7.4%) nag yng Nghymru (10.2%) a'r DU (8.0%).

Mae Canolbarth Cymru yn cynhyrchu cyflogaeth arwyddocaol mewn cyfanwerthu bwyd a diod (6.6%) o'i gymharu â'r 6.2% a gofrestrwyd yng Nghymru a 5.8% ar draws y DU. Mae cyfran cyflogaeth mewn gweithgynhyrchu a manwerthu bwyd a diod yng Nghanolbarth Cymru hefyd yn fwy na chyfartaledd Cymru a'r DU. Rhwng 2010 a 2017, cynyddodd cyflogaeth cysylltiedig â bwyd yng Nghanolbarth Cymru gan 11.5%, yn uwch na'r twf o 9.9% a gofrestrwyd yng Nghymru ac 11.3% yn y DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio strategaeth ddiwygiedig gyda thargedau uchelgeisiol ar gyfer datblygiad a thwf y diwydiant bwyd yng Nghymru. Bydd y mentrau a'r buddsoddiadau a gynllunnir ar gyfer Canolbarth Cymru yn manteisio ar fuddsoddiadau a mentrau ehangach Cymru ac yn ychwanegu gwerth atynt, gan felly cyflawni twf uwch mewn cynhyrchiant, cyflogaeth a ffyniant o sector bwyd-amaeth Cymru.

Mae sector prosesu bwyd a diod cryf a deinamig eisoes gan Ganolbarth Cymru, gan gefnogi sector ffermio traddodiadol cryf. Mae Canolbarth Cymru hefyd yn gartref i amrywiaeth o sefydliadau cymorth. Eto i gyd ceir cred a thystiolaeth gryf i ddangos y gallai cyfraniad y sector i economi bwyd a diod Cymru a'r DU gael ei gryfhau ymhellach gan gyfres o fuddsoddiadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol a datgloi'r potensial ar gyfer twf.

---

[17] AECOM (2019) Adroddiad Sylfaen Rhaglenni Ymyrraeth Seiliedig ar Dystiolaeth

Mae proffil presennol y diwydiant bwyd a diod yng Nghanolbarth Cymru yn dangos bod y diwydiant yn arddangos cyfradd uchel o gynhwysedd, hynny yw bod perchnogion busnes a gweithwyr yn dod o ystod eang o grwpiau demograffig[18]. Mae cyfleoedd pellach ar gyfer twf, yn enwedig ar gyfer busnesau newydd, yn darparu cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygiadau gyrfa cynaliadwy mewn sector a all ddal cyfleoedd marchnad sy'n dod o ddiddordeb cynyddol mewn tarddiad bwyd a diod fel ffordd o gyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol gwell.

## *Beth Rydym am ei Gyflawni*

| AMCAN | BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD |
|---|---|
| Galluogi a Chefnogi Twf y Farchnad | • Gwella'r cymorth ar gyfer busnesau newydd/sy'n bodoli i nodi a chael mynediad at gyfleoedd marchnad newydd yn y wlad hon ac yn rhyngwladol.<br>• Targedu cymorth a buddsoddiad mewn mentrau sy'n datblygu cyfleoedd marchnad ar gyfer cynnyrch lleol yn y sector lletygarwch. Mae'r cysyniadau sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys profiad manwerthu bwyd lleol a Phrifysgol Gastronomeg.<br>• Datblygu ac adolygu cadwyn gyflenwi, archwilio llwybrau newydd i'r farchnad er mwyn lywio buddsoddiadau ehangach wedi'u targedu (cysylltu cynhyrchwyr bach â marchnadoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol). |
| Meithrin Arloesi | • Adeiladu ar gryfderau ac asedau arloesi rhanbarthol i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd busnes newydd (e.e. amaethyddiaeth amgylchedd rheoledig, ffermio fertigol, ffarmacoleg o amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu a datblygu cynnyrch, a threialu prosesau a dulliau newydd gan ymateb i awtomatiaeth/deallusrwydd artiffisial trwy dechnoleg amaethyddol.<br>• Cyfle i fuddsoddi mewn cyfleusterau ar draws y rhanbarth trwy ffermydd sydd ym mherchnogaeth gyhoeddus.<br>• Cyd-fuddsoddi mewn capasiti arloesi prosesu hylif arbenigol yn y rhanbarth. Bydd hyn yn dal y cyfleoedd penodol a nodwyd gan bartneriaid sector preifat i sefydlu cyfleusterau arloesi unigryw a fydd yn ychwanegu gwerth at y diwydiant llaeth, yn ogystal â'r sectorau diodydd meddal, cwrw a gwin. |
| Datblygu'r Amgylchedd Busnes Cywir | • Sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gyfer busnesau newydd a busnesau twf trwy gyflenwad digonol o beilota gradd bwyd a chyfleusterau gweithgynhyrchu ar draws Canolbarth Cymru mewn lleoliadau strategol allweddol.<br>• Sicrhau'r ddarpariaeth gywir o gymorth datblygu busnes a gwybodaeth ar draws Canolbarth Cymru trwy ystyried cyfleusterau allgymorth/lloeren.<br>• Sicrhau bod buddsoddiadau seilwaith dŵr, ynni a gwastraff yn cael eu cydnabod gan ddarparwyr a'r Llywodraeth er mwyn galluogi'r sector i dyfu. |
| Datblygu'r Farchnad Lafur | • Datblygu llwybrau a phrofiadau hyfforddi a gyrfa i godi ymwybyddiaeth ac achub ar gyfleoedd ar draws y sector, gyda ffocws ar swyddi uwch eu gwerth.<br>• Sicrhau cysondeb cryf ar draws diwydiant a darparwyr trwy gryfhau mewnbwn diwydiant a chysoni'r ddarpariaeth sgiliau a chyflogaeth yn briodol, gyda'r nod o gryfhau'r defnydd o gymorth yn rhanbarthol. |

[18] AECOM (2019) Adroddiad Sylfaen Rhaglenni Ymyrraeth Seiliedig ar Dystiolaeth

## 6.2 Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi

**Mae Canolbarth Cymru yn gartref i ddiwydiannau o bwysigrwydd rhyngwladol ac asedau ac arbenigedd ymchwil a datblygu a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n cynnig cyfleoedd i gynyddu twf cynhyrchiant rhanbarthol.**

Gallai manteisio ar y cryfderau sydd gennym, harneisio arbenigeddau sy'n cael eu datblygu, ochr yn ochr â mwy o ymgysylltu â diwydiant a datblygu arwain at gyfoeth o gyfleoedd digyffwrdd yn y rhanbarth.

Mae'r cryfderau sydd gennym sy'n cynnig cyfleoedd i gryfhau a datblygu ymhellach yn cynnwys:

- **Technoleg Amaethyddol, Bwyd a Biowyddoniaeth:** Mae arbenigedd arweiniol gennym ym maes ymchwil a datblygu yn y sectorau technoleg amaethyddol a biowyddoniaeth gyda chanolfannau ymchwil sy'n arwain y byd, megis Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Bydd datblygu Campws Menter ac Arloesi Aberystwyth (ArloesiAber) yn ychwanegu capasiti er mwyn gallu masnacheiddio dulliau newydd, ond mae cyfle pellach i fuddsoddi i'w gael trwy gynyddu/dyfu lle a gyd-leolir gyda'r clwstwr ymchwil a datblygu, a'r cysylltiadau rheilffyrdd newydd trwy orsaf drenau Bow Street.
- **Canolfan y Dechnoleg Amgen (CAT):** Rydym yn gartref i CAT, elusen addysgiadol wedi'i hymrwymo i ymchwilio a chyfathrebu atebion cadarnhaol ar gyfer newid amgylcheddol. Ar hyn o bryd mae'n ysgogwr academaidd a thwristiaeth pwysig gyda chynlluniau i dyfu. Yn wyneb y galw am ymagweddau mwy arloesol at gyflenwad ynni cynaliadwy a llai o allyriadau CO2, gallai ddarparu ystod eang o fanteision economaidd ac amgylcheddol.
- **Milfeddygaeth a TB Buchol:** Mae gan Ganolbarth Cymru gryfderau ym maes milfeddygaeth trwy Ganolfan Milfeddygaeth Cymru a'r datblygiad Hyb Milfeddygaeth gwerth £4.2m sy'n ategu Canolfan Rhagoriaeth Ymchwil mewn TB Buchol. Bydd Prifysgol Aberystwyth yn dechrau darparu hyfforddiant milfeddygol ar y cyd â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol o 2020. Mae angen buddsoddiad pellach mewn milfeddygaeth ac mae Canolbarth Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain ym maes darparu gwasanaethau i'r sector amaethyddol a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o filfeddygon, gan ateb yr her sydd i'w gweld ar draws y DU o ran recriwtio a chadw milfeddygon.
- **Gweithgynhyrchu Uwch:** Mae Canolbarth Cymru yn gartref i nifer sylweddol o ddiwydiannau gweithgynhyrchu uwch gan gyflogi 6,625 o bobl (8% o'r gyflogaeth ranbarthol) ar draws nifer o is-sectorau (cynhyrchion metel ffabrigedig – 31.7%; peiriannau ac offer – 22.3%; metelau sylfaenol – 12.4%)[19] gyda meysydd o arbenigedd megis awtomatiaeth, peirianneg symudiad a biotechnoleg/gwyddorau bywyd. At ei gilydd mae cyflogaeth gweithgynhyrchu yma wedi cynyddu gan 8.2% o lefelau 2010, gan gynrychioli tuedd cadarnhaol i adeiladu arno wrth i ni geisio gwella cynhyrchiant a chynhyrchu twf economaidd[20].

Mae arbenigeddau rhanbarthol a gweithgarwch clystyru sy'n datblygu yn cynnwys:

- **Canolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd:** Ceir cynnig sydd wedi ennyn llawer o gefnogaeth i sefydlu canolfan brofi gyda dau drac hirgrwn wedi'u trydaneiddio a fydd yn caniatáu ar gyfer cyflymderau profi o hyd at 110 milltir yr awr, gyda'r opsiwn ar gyfer twnnel a thrac llawn. Byddai hwn yn gyfleuster profi trenau o safon fyd-eang yn y DU, a byddai'n atyniad pwysig i fuddsoddwyr ac yn darparu gwasanaeth hollbwysig i weithgynhyrchwyr trenau yn y DU a thramor, y diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi.

---

[19] ONS Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth 2017; Cyfrifiadau Busnes y DU ONS
[20] AECOM (2019) Adroddiad Sylfaen Rhaglenni Ymyrraeth Seiliedig ar Dystiolaeth

Menter ar y cyd yw hon rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Castell-nedd a Phort Talbot a'r sector preifat.

- **Sbectrwm Radio:** Mae Canolbarth Cymru yn lleoliad pwysig ar gyfer gweithrediadau amddiffyn y DU, gan gynnwys gofod awyr neilltuedig ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell (RPAS) oddi ar arfordir Gorllewin Cymru. Mae Canolfan Sbectrwm Cenedlaethol yn cynnig y potensial i hyrwyddo arloesi, datblygu cynhyrchion a chymwysiadau newydd, cynnal cydnerthedd, unplygrwydd a diogelwch er mwyn rhoi Canolbarth Cymru wrth wraidd Strategaeth Sbectrwm Llywodraeth y DU. Mae cymwysiadau posibl technoleg sbectrwm i sectorau allweddol Canolbarth Cymru yn eang. Maent yn cynnwys y sector amddiffyn a diogelwch, y defnydd o roboteg, dronau a pheiriannau clyfar ym myd amaeth. Mae hyn yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd yn llawnach o dan gytundeb cyllido ar wahân gan Lywodraeth Cymru.
- **Hydrogen:** yn gartref i arbenigedd ymchwil a gweithgynhyrchu sy'n bodoli mewn hydrogen modurol, ceir potensial i ddatblygu'r clwstwr hydrogen ymhellach a chefnogi cymwysiadau diwydiannol a chymdeithasol ehangach mewn ynni. Mae buddsoddiad ymchwil diweddar yn awgrymu bod canolfan weithgynhyrchu yn yr ardal yn bosibilrwydd go iawn gyda'r cymorth a'r datblygiad cywir.

## *Potensial Twf Economaidd*

Mae cryfderau sylfaen ymchwil a diwydiannol y rhanbarth yn cynnig cyfle mawr i ysgogi newid trawsffurfiol gyda'r buddsoddiad cywir yn y lleoedd cywir sy'n ymateb i'r cyfle ymchwil ac yn ysgogi twf diwydiannol.

Ceir heriau adnabyddus mewn diwydiant o ran heriau sgiliau sy'n gysylltiedig ag awtomatiaeth a deallusrwydd artiffisial, newid y galw am gynnyrch a chyfleoedd marchnad, sydd i gyd yn gofyn am gydweithredu a chroes-ffrwythlonni academaidd/diwydiannol cryf os yw'r sector am barhau i fod yn gystadleuol.

Gyda'r buddsoddiad cywir ceir cyfle i gryfhau'r clystyrau sy'n bodoli ochr yn ochr ag annog clystyrau newydd o asedau a chryfderau sy'n bodoli a fydd yn ysgogi lefelau buddsoddi cynyddol, yn rhoi hwb i hyder busnes rhanbarthol, yn cryfhau cyflenwad llafur medrus ac yn helpu busnesau i addasu a manteisio ar gyfleoedd newydd i ysgogi twf gwerth uwch.

Ceir tystiolaeth bod y defnydd o wybodaeth ac arloesi ymchwil a datblygu yn is na'r cyfartaledd yma, gyda chyfle i roi sylw i gredydau treth ymchwil a datblygu[21], ac yn rhannol o ganlyniad i hyn, mae cynhyrchiant yn parhau i fod yn ystyfnig o isel o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Mae'r buddsoddiadau arfaethedig isod yn ceisio rhoi sylw i'r gwendid hwn trwy ychwanegu gwerth at raglenni a gallu sy'n bodoli, gan sicrhau cyfraddau trosglwyddo gwybodaeth gynyddol a chefnogi twf rhanbarthol.

[21] AECOM (2019) Adroddiad Sylfaen Rhaglenni Ymyrraeth Seiliedig ar Dystiolaeth

### *Beth Rydym am ei Gyflawni*

| AMCAN | BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD |
|---|---|
| Buddsoddi mewn Seilwaith Rhanbarthol ac Asedau | • Adeiladu ar gryfderau ymchwil i ddatblygu'r cyfleusterau a seilwaith priodol i hyrwyddo datblygu gwybodaeth a sgiliau a chryfhau cysylltiadau diwydiannol er mwyn galluogi busnesau i ddechrau a thyfu.<br>• Targedu buddsoddiad mewn cyfleoedd strategol i gryfhau clystyru academaidd/diwydiannol. |
| Cryfhau Rhwydweithiau a Ffyrdd o Weithio | • Sefydlu partneriaeth arloesol sy'n cynnwys academia, y gymuned fusnes a buddsoddi a'r sector cyhoeddus er mwyn:<br>o Adnabod anghenion ymchwil a datblygu busnesau yn y rhanbarth a chyfathrebu â'r sefydliadau ymchwil perthnasol.<br>o Nodi tueddiadau newydd a allai fod o fudd i fusnesau sy'n gweithredu yng Nghanolbarth Cymru, gan sicrhau cysylltiadau diwydiant cryf.<br>o Nodi gweithgarwch ymchwil a datblygu perthnasol o fewn neu'r tu allan i'r rhanbarth i helpu diwydiant gyda'i heriau arloesi allweddol.<br>• Galluogi cyrff ymchwil a datblygu yn y rhanbarth i gymryd rhan mewn gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth gyda busnesau o fewn y rhanbarth, a galluogi busnesau yn y rhanbarth i gael at weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth gan gyrff ymchwil a datblygu y tu allan i'r rhanbarth.<br>• Cryfhau ymwybyddiaeth ymysg darparwyr gwasanaeth proffesiynol rhanbarthol o'r cyfle i ymgysylltu â chlwstwr seiliedig ar dechnoleg. |
| Datblygiad y Farchnad Lafur | • Datblygu llwybr gyrfa mewn arloesi a diwydiannau seiliedig ar dechnoleg, gan gefnogi swyddi gwerth uwch gan gynnwys entrepreneuriaeth a rhyng-preneuriaeth. |

## 6.3 Cynnig Twristiaeth Cryfach

**Mae Canolbarth Cymru yn rhanbarth unigryw gyda threftadaeth cyfoethog, diwylliant ac asedau naturiol eithriadol sy'n sail i sector twristiaeth bywiog, gan gynnig llwyfan cryf i hybu twf newydd.**

Yn ystod 2014-2016 roedd Canolbarth Cymru yn cyfrif am 18% o'r teithiau domestig dros nos (Prydain Fawr), 10% o ymweliadau rhyngwladol, a 12% o ymweliadau dydd i Gymru. Mae'r diwydiant yn cyflogi 23,000 o bobl o fewn y rhanbarth[22], ac roedd yn werth oddeutu £1.08 biliwn yn 2016[23].

Mae economi twristiaeth y rhanbarth wedi'i chysylltu'n gynhenid ag amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd sy'n hollbwysig i hunaniaeth, diwylliant ac economi'r rhanbarth; ac mae wedi

[22] StatsCymru, Cyflogaeth yn y Gweithle, Hydref 2019
[23] Blaenoriaethau Strategol Economaidd ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru AECOM (2019)

cael sylw yn aml mewn nifer o gynyrchiadau ffilm a theledu poblogaidd; un enghraifft amlwg yw'r gyfres deledu Y Gwyll[24].

Mae'r rhanbarth yn cynnwys Parc Cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol megis Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Mynyddoedd Cambria tra bod ei arfordir dilychwin yn cynnig pum traeth baner las a mynediad i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt morol. Mae gan Ganolbarth Cymru rwydwaith o lwybrau hamdden lleol a chenedlaethol a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd i brofi ac archwilio harddwch naturiol y rhanbarth, ac mae lleoliadau nodedig yn cynnwys Ystrad Fflur a phensaernïaeth hanesyddol arwyddocaol. Er hynny nid ydynt yn adnabyddus i raddau helaeth y tu allan i'r rhanbarth (e.e. Trefyclo, Llanandras, Talgarth, y Gelli, Aberhonddu a Thregaron).

Mae twristiaeth yn cael ei hybu ymhellach gan amrywiaeth eang o ddigwyddiadau blynyddol gan gynnwys brandiau a gydnabyddir yn rhyngwladol, megis Gŵyl y Dyn Gwyrdd, y Sioe Frenhinol, Rali Cymru GB a Gŵyl y Gelli.

Mae trefi a phentrefi Canolbarth Cymru yn asedau deniadol ynddynt eu hunain ac yn ganolfannau prysur ar gyfer busnesau a mentrau annibynnol, pob un yn cefnogi'r economïau cylchol a sylfaen. Mae arfordiroedd y rhanbarth yn gartref i rwydweithiau o gyfleusterau harbwr, gan ddarparu hunaniaethau gweledol unigryw, yn cefnogi twristiaeth a masnach gyda rhwydwaith camlesi mewndirol, gan gynnig potensial datblygu pwysig.

## *Potensial Twf Economaidd*

O'i gymharu â rhanbarthau eraill y DU, mae gan Ganolbarth Cymru gyfradd meddiannaeth is mewn llety twristiaeth, a thua 6% yn is na'r Alban a 10% yn is na Lloegr. Yn ogystal, mae cynhyrchiant a chyflogau yn sector twristiaeth Canolbarth Cymru yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cyffredinol ar gyfer yr economi yng Nghymru. Mae hyn yn arwain at lai o refeniw ar gyfer y sector yng Nghanolbarth Cymru, ac er mwyn i'r diwydiant elwa ar ei botensial, mae'n hollbwysig bod Canolbarth Cymru yn gallu cryfhau meddiannaeth yn y cyfnod rhwng yr amser teithio isel ac uchel a gwneud y mwyaf o wariant gan ymwelwyr.

Trwy gydol y rhanbarth, mae angen buddsoddiad yn y cynnig twristiaeth er mwyn cynhyrchu enillion gwerth uwch ar gyfer yr economi ac i hyn gael ei gyflawni mewn partneriaeth â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynnig unrhyw Canolbarth Cymru trwy roi sylw i natur dymhorol twristiaeth, gwariant a lledaeniad.

Mae cryfder ein natur, diwylliant a threftadaeth yn darparu llwyfan cryf i ni chwarae ein rhan wrth gynyddu marchnad ymwelwyr Cymru a'r DU. Yn wyneb daearyddiaeth unigryw Canolbarth Cymru, mae cyfle arwyddocaol i'w gael i ddefnyddio ein hasedau a'n hadnoddau naturiol i ddatblygu pwynt gwerthu unigryw sy'n cryfhau twristiaeth yn y rhanbarth. O dan yr uchelgais o gryfhau twristiaeth ar gyfer y rhanbarth, byddwn yn buddsoddi mewn profiadau trwy'r flwyddyn gron, o safon uchel sydd o fudd i ymwelwyr a'r cymunedau lle y maent wedi'u lleoli.

Mae lefelau uwch o arferion cynaliadwy yng Nghanolbarth Cymru wedi'u hadeiladu ar gryfderau ein hasedau naturiol a sefydliadol, gan gynnig cyfle i'r rhanbarth ragori mewn twristiaeth sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, yr economi gylchol, yn ogystal â chefnogi gweithredoedd iechyd a llesiant. Rhaid i'r ffocws fod ar ansawdd a gwerth, nid niferoedd.

Bydd manteisio ar gyfleoedd i gryfhau ein cynnig twristiaeth hefyd yn ysgogi'r potensial ehangach ar gyfer twf economaidd. Rhoddir mwy o ffocws ar arddangos beth sydd gan Ganolbarth Cymru i'w gynnig a bydd hyn yn ei dro yn rhoi hwb i'r sector bwyd a diod ac yn helpu busnesau lleol i ffynnu. Bydd hyn yn newid canfyddiadau o Ganolbarth Cymru ac yn denu busnes newydd i'r rhanbarth, yn rhoi'r hyder i fusnesau cynhenid a phobl leol i fuddsoddi, yn cryfhau llwybrau gyrfa ac yn rhoi sicrwydd mwy tymor hir ar gyfer buddsoddiad a chymorth.

[24] https://www.visitwales.com/things-do/attractions/tv-film-locations/hinterland-inside-guide-tv-shows-secret-locations

## *Beth Rydym am ei Gyflawni*

| AMCAN | BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD |
|---|---|
| Buddsoddi mewn Seilwaith Rhanbarthol Strategol ac Asedau | • Buddsoddi mewn atyniadau cynaliadwy, seiliedig ar brofiadau, arloesol sy'n gwella'n sylweddol y cynnig twristiaeth rhanbarthol i ddenu ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn a sicrhau mwy o wariant yn lleol.<br>• Hyrwyddo'r profiad awyr agored arbennig sydd gan Canolbarth Cymru i'w gynnig gan gynnwys profiadau arfordirol, mynydda a hamdden, a datblygu atyniadau hamdden awyr agored.<br>• Targedu buddsoddiad ar gyfleoedd strategol allweddol sy'n denu buddsoddiad arwyddocaol mewn seilwaith ac asedau allweddol i ysgogi'r marchnadoedd twristiaeth newydd a fyddai'n denu buddsoddiad preifat ac yn rhoi hwb i gyfleoedd busnes a chyflogaeth newydd (e.e. harbwrs, camlesi a dyfrffyrdd).<br>• Datblygu'r cysyniad o Ganolfan Bywyd Gwledig Cymru a fyddai'n dathlu bywyd gwledig, treftadaeth a diwylliant. |
| Buddsoddi mewn Seilwaith Ategol | • Buddsoddi yn y seilwaith ategol a chyfleusterau safleoedd allweddol ar draws y rhanbarth i wella hygyrchedd asedau allweddol (e.e. safleoedd darganfod awyr dywyll, atyniadau dŵr a'n harfordiroedd a mynyddoedd eiconig).<br>• Buddsoddiad pellach mewn llwybrau cerdded a beicio blaenllaw, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru, llwybrau cenedlaethol, canolfannau beicio mynydd, llwybrau di-draffig a llwybrau beicio a Ffordd Cymru.<br>• Cryfhau gallu'r rhanbarth i gynnal a denu digwyddiadau a chynadleddau trwy fuddsoddiad uniongyrchol mewn cyfleoedd strategol allweddol ochr yn ochr â buddsoddiad wedi'i dargedu ar seilwaith llety a rhwydwaith. |
| Datblygiad y Farchnad Lafur | • Datblygu llwybrau a phrofiadau hyfforddi a gyrfa i godi ymwybyddiaeth ac achub ar gyfleoedd ar draws y sector, gyda ffocws ar swyddi gwerth uwch.<br>• Sicrhau cysondeb cryf ar draws diwydiant a darparwyr trwy gryfhau mewnbwn diwydiant a chysoni'r ddarpariaeth hyfforddiant yn briodol gyda'r nod o gryfhau'r defnydd rhanbarthol o'r ddarpariaeth bresennol/arfaethedig. |
| Ymwybyddiaeth Cryfach o Gynnig Canolbarth Cymru | • Hunaniaeth brand/marchnata cryfach ar gyfer Canolbarth Cymru fel cyrchfan a'r profiad/cynnig o'i fewn (yn gyson â Chroeso Cymru a Visit Britain) gan dynnu sylw at gyfleoedd unigryw y rhanbarth.<br>• Datblygu pecyn cymorth penodol ar gyfer busnesau rhanbarthol er mwyn gallu cryfhau marchnata'r cynnig twristiaeth rhanbarthol sy'n gydnaws o'r cymorth cenedlaethol presennol ac yn ychwanegu gwerth ato. |

## 6.4 Ynni

**Mae Canolbarth Cymru mewn sefyllfa arbennig o dda i arwain ymdrechion Cymru a'r DU o ran datblygu a chreu atebion i heriau system ynni yn y dyfodol.**

Mae adnoddau naturiol yng Nghanolbarth Cymru mewn sefyllfa dda i gynhyrchu mathau gwyrdd ac adnewyddadwy o ynni. Mae asedau amgylcheddol ac arbenigedd y rhanbarth mewn technolegau carbon isel yn ffurfio rhan o'i gryfderau allweddol a fydd yn chwarae rôl hanfodol yn ei dwf economaidd yn y dyfodol a thwf economaidd Cymru a'r DU. Mae gan Ganolbarth Cymru gyfle ac amgylchedd unigryw i ddarparu potensial twf trwy arloesi a chyfleoedd busnes cysylltiedig â charbon isel. Bydd angori arbenigedd cryf ac uchelgais y rhanbarth i sectorau twf targed allweddol yn creu atebion arloesol i ddatrys cyfyngiadau grid, gan gefnogi twf economaidd o fewn y rhanbarth. Bydd cefnogi busnesau a chymunedau i ddatblygu a defnyddio ynni adnewyddadwy yn creu ac yn ychwanegu gwerth at gadwyni cyflenwi a rhwydweithiau economi cylchol ar draws y rhanbarth. Bydd meithrin a chreu sylfaen sgiliau a rhwydwaith cryf, cysylltu arloesi â sefydliadau academaidd a busnesau yn creu cyfleoedd mewnfuddsoddi. Ar yr un pryd mae cyfle a dyheadau yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd masnachol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy o'r rhanbarth gan gyfrannu at ddyheadau 2050 y DU. Bydd manteisio ar y cyfleoedd hyn yn darparu datblygiad economaidd a chyfleoedd gwerth ychwanegol ar gyfer busnesau a chymunedau'r rhanbarth, gan ddangos gallu'r rhanbarth i arwain ar gynhyrchu a storio ynni ar lefel y DU.

### *Potensial Twf Economaidd*

Ceir sawl mater cysylltiedig ag ynni y mae'n rhaid i Ganolbarth Cymru roi sylw iddo er mwyn bodloni ei botensial economaidd. Prif bryder yw capasiti'r grid sydd wedi cael ei nodi fel cyfyngiad arwyddocaol i dwf yn y dyfodol. Mae mynediad i'r rhwydwaith ynni ar gyfer cwsmeriaid domestig wedi ei gyfyngu, tra bo'r gost arwyddocaol sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau grid wedi dal buddsoddiad yn ôl ymhellach ar gyfer datblygiadau newydd ac asedau cynhyrchu ynni.

Mae Canolbarth Cymru hefyd yn wynebu heriau arwyddocaol o ran tlodi tanwydd gydag 17% ac 14% o gartrefi yng Ngheredigion a Phowys yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae ardaloedd arwyddocaol o Ganolbarth Cymru heb fod ar y grid nwy gyda 72% o eiddo yng Ngheredigion a 52% ym Mhowys heb unrhyw gysylltiad â'r grid nwy.  Mewn cyd-destun ehangach, mae enillion cyfartalog ar gyfer preswylwyr Canolbarth Cymru yn syrthio 5.5% o dan gyfartaledd Cymru ym Mhowys a 12.2% o dan gyfartaledd Cymru yng Ngheredigion, gan ychwanegu at effaith tanwydd tlodi.

Mae'r DU wedi ymrwymo i dargedau cyfreithiol rwymol lleihau allyriadau carbon gan 80% erbyn 2050.  Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod am fynd ymhellach a chyrraedd net sero erbyn 2050. Mae Canolbarth Cymru yn llawn adnoddau naturiol ac os cânt eu harneisio'n briodol gallant helpu'r ddwy lywodraeth i gyrraedd eu targedau.

Mae partneriaid yng Nghanolbarth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon ar hyn o bryd i gynhyrchu gweledigaeth ynni rhanbarthol a chynllun gweithredu a fydd yn datblygu cynigion ymhellach.

### *Beth Rydym am ei Gyflawni*

| AMCAN | BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD |
|---|---|
| Rhoi Sylw i Gapasiti'r Rhwydwaith a Chyfyngiadau Grid | • Rhaglen Capasiti Grid Canolbarth Cymru, wedi'i chysylltu â safleoedd cyflogaeth ac eiddo strategol, gan gynnwys:<br>o Defnyddio batris a hydrogen i osgoi problemau capasiti grid<br>o Sefydlu hybiau cynhyrchu ynni (cael datblygwyr lluosog i rannu'r gost o atgyfnerthu) |

| | |
|---|---|
| | ◦ Caniatáu i gwmnïau pŵer fuddsoddi mewn seilwaith ymlaen llaw cyn i'r galw godi gan nodi'r buddsoddiad strategol cyn i'r angen godi a darparu sylfaen dystiolaeth (wedi'i chysylltu â safleoedd strategol tir ac eiddo).<br>◦ Archwilio technoleg/modelau cyflenwi arloesol megis micro-gridiau yn ein cymunedau mwyaf gwledig.<br>◦ Ystyriaeth strategol o'r galw am ynni gan fuddsoddiadau seilwaith mawr sy'n gydnaws â chynhyrchu/cyflenwi. |
| Datgarboneiddio ein cyflenwad a'r defnydd o ynni | • Buddsoddi mewn cyfleoedd sector cyhoeddus o'u hasedau a'u hadnoddau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy trwy dechnolegau hyfyw (e.e. gwynt, solar, biomas, ynni o wastraff ac ati).<br>• Adeiladu ar gryfderau rhanbarthol sy'n bodoli ym maes cynhyrchu biomas i gryfhau'r potensial ar gyfer datblygu clwstwr diwydiannol.<br>• Rhaglen Arloesi Storio Batris Canolbarth Cymru wedi'i chysylltu â diwydiant, amaethyddiaeth a sgiliau. Technolegau arddangoswr i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a storio ar y safle i ategu'r grid yn ystod oriau brig neu gysylltu â'r economi gylchol megis darparu hydrogen ar gyfer y diwydiant modurol.<br>• Rhaglen Cymhelliant Busnes Carbon Isel Canolbarth Cymru, gan gynnig cymhellion megis cyllid ffafriol ac ardrethi busnes rhatach i fusnesau sy'n gweithredu arferion carbon isel. Cynllun grant i gefnogi sut y gallai datblygu prosiect carbon isel neu newid i garbon isel fod ar gael. |
| Datblygu potensial amaethyddiaeth | • Buddsoddi mewn cyfleoedd strategol allweddol i brofi/dreialu dulliau/technegau ffermio newydd sy'n gyson â'r cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni (e.e. ynni o wastraff, treialon trydaneiddio amaethyddiaeth, treulio anaerobig a storio batris).<br>• Adeiladu ar y clwstwr bio-buro presennol yn IBERS i archwilio'r potensial ar gyfer bio-buro porfa ar gyfer ynni.<br>• Ymagwedd strategol at y galw rhanbarthol cydgysylltiedig a'r cyfleoedd cynhyrchu gydag arloesi. |
| Harneisio arloesi rhanbarthol | • Archwilio'r ysgogiadau polisi posibl i annog clystyru a datblygiad diwydiannol mewn safleoedd strategol allweddol yn y rhanbarth.<br>• Astudiaeth hydrogen Canolbarth Cymru.<br>• Archwilio defnydd a storio dal carbon. |
| Lleihau tanwydd tlodi | • Canolfan/rhwydwaith hyfforddi ecosystem adeiladu carbon isel Canolbarth Cymru.<br>• Archwilio "Energiesprong"[25] ar gyfer Canolbarth Cymru.<br>• Ôl-osod effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ynni tlawd.<br>• Ymyraethau/lobio polisi cynllunio.<br>• Archwilio rhwydweithiau gwres dosbarthol a ysgogir gan y sector preifat lleol. |
| Datgarboneiddio trafnidiaeth | • Rhwydwaith gwefru cerbydau trydan strategol: y potensial i ddilyn llwybrau twristiaeth a masnachol a safleoedd strategol allweddol.<br>• Pwyntiau gwefru hwb cerbydau trydan trên/bws.<br>• Fflydoedd isel iawn/dim allyriadau sector cyhoeddus, ymagwedd ranbarthol at leihau costau a graddfa. |

25 https://www.energiesprong.uk/how-does-it-work

## 6.5 Cefnogi Menter

**Ein gweledigaeth yw i gael economi gryf, gydnerth ac amrywiol yng Nghanolbarth Cymru sy'n galluogi mentrau i ddechrau, tyfu a ffynnu gyda'r cymorth a'r seilwaith iawn.**

Byddwn yn cyflawni hyn trwy greu'r amodau i ysgogi twf menter, buddsoddiad a bod yn gystadleuol a fydd yn cynyddu cynhyrchiant yn rhanbarthol. Rydym am sicrhau bod mentrau yn cael eu cefnogi i fod yn ddeinamig ac yn entrepreneuraidd, i adnabod a thargedu cyfleoedd marchnad, manteisio ar arloesi, awtomatiaeth, hyfforddiant a digideiddio fel ysgogwyr allweddol twf, gan greu cyfleoedd cyflogaeth o werth uwch yn y broses.

Mae mentrau cymdeithasol cryf, galluog a dyfeisgar hefyd yn hanfodol ar gyfer twf economaidd a chynaliadwyedd cymunedau yng Nghanolbarth Cymru. Maent yn cynhyrchu gweithgarwch economaidd, yn cael effaith gymdeithasol bwysig ac yn allweddol i ddenu talent newydd i'r ardal. Ein huchelgais ar gyfer y sector menter gymdeithasol yw bod yn gryf ac yn hyderus, gan roi sylw i'r cyfleoedd marchnad a'r angen cymdeithasol, gan gefnogi arferion gwaith teg ac adeiladu cydnerthedd.

### *Potensial Twf Economaidd*

Mae sylfaen busnes Canolbarth Cymru yn cynnwys bron 13,000 o fusnesau. Mae hyn yn cynrychioli twf o 2.2% ers 2010 (Cymru – 14.8%; y DU – 27%). Microfusnesau a busnesau bach yw asgwrn cefn economi Cymru, hyd yn oed mwy byth yn y Canolbarth, gyda 95% o ficrofusnesau (<10 gweithiwr) (Cymru 89.2%, y DU 89.4%), tra mai dim ond 0.8% o fusnesau sy'n rhai canolig neu fawr (gyda 50+ o weithwyr) (Cymru 1.6%, DU 1.9%).

Mae'r gyfran fawr o ficrofusnesau ar draws Canolbarth Cymru yn debygol o gael eu hysgogi gan y nifer uchel o fentrau amaethyddol sy'n cynrychioli ~37% o'r holl fusnesau ar draws y rhanbarth, gyda lefelau hunangyflogaeth uchel. Mae mentrau canolig yn cael eu gweld yn y sectorau iechyd a gweithgynhyrchu yn bennaf, gan gynrychioli 6.2% a 4.9% o gyfanswm y stoc busnes. Mae sectorau amlwg sy'n cynhyrchu cyflogaeth yn cynnwys llety a gwasanaethau bwyd (12.2%) a manwerthu (10.6%). Mae'r rhain yn adlewyrchu pwysigrwydd yr economi sylfaen i Ganolbarth Cymru.

Ers 2010, bu lleihad mewn manwerthu gan ddisgyn o 920 i 785 (-14.7%). I'r gwrthwyneb, bu cynnydd yn y sector proffesiynol, gwyddonol a thechnoleg o 755 yn 2010 i 880 (+16.6%) yn 2017, a chynnydd arwyddocaol yn nifer y mentrau gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn o 15 yn 2010 i 85 yn 2017 (+466.7%). Roedd y gyfradd oroesi pum mlynedd ar gyfer busnesau newydd yn 2011 yn uwch yng Nghanolbarth Cymru (48.1%) nag yng Nghymru (43.2%) a'r DU (44.1%).

Mae Canolbarth Cymru yn wynebu sawl her unigryw o ran cefnogi ei fusnesau, gan gynnwys patrwm anheddiad gwasgaredig a all wneud y farn draddodiadol am glystyrau sectoraidd yn anodd. Mae'r sylfaen economaidd gul yn ei gwneud hi'n arbennig o agored i siociau economaidd, gydag amaethyddiaeth yn sector allweddol sy'n debygol o wynebu newidiadau o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Cydnabyddir yn eang bod diffyg safleoedd ac adeiladau cyflogaeth o safon dda i fodloni gofynion a disgwyliadau busnes. Prin yw'r gweithgarwch o ran hap-adeiladu ar safleoedd o'r fath gan y sector preifat oherwydd methiant y farchnad. Mae stoc sy'n heneiddio yn bodoli sy'n gofyn am fuddsoddiad arwyddocaol er mwyn bod yn gynnig deniadol.

Er mwyn gwella cynhyrchiant Canolbarth Cymru a chulhau'r bwlch â gweddill y DU, mae'n hollbwysig i ddarparu cymorth wedi'i dargedu a chymorth trawsffurfiol i fusnesau, boed hynny trwy gymorth seilwaith, cyllid neu gymorth busnes ehangach. Yn y cyswllt hwn, nododd

adroddiad diweddar gan Fanc Datblygu Cymru bwysigrwydd ymyraethau i annog twf cynhyrchiant ac arloesi waeth beth fo maint y busnes[26].

## *Beth Rydym am ei Gyflawni*

| AMCAN | BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD |
|---|---|
| Galluogi Twf Busnes | • Safleoedd Arloesi Busnes Strategol: buddsoddi mewn nifer fach o safleoedd cyflogaeth o safon uchel a chanolfannau rhagoriaeth mewn sectorau targed (e.e. technoleg amaethyddol, gweithgynhyrchu uchel ei werth, arloesi bwyd a charbon isel).<br>• Rhwydwaith Deori Twf Busnes Canolbarth Cymru: adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol i gynnig llety busnes wedi'i rannu o safon uchel gan dargedu busnesau newydd a microfentrau, a chynnig cymorth busnes, gwasanaethau proffesiynol, rhwydweithio, hyfforddiant, cysylltedd digidol gigabeit, telerau hyblyg, cydleoli ac ati.<br>• Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth Canolbarth Cymru a fyddai'n darparu'r allbynnau canlynol;<br>    ○ Portffolio rhanbarthol o unedau deori busnes o safon uchel a lle i dyfu ar gyfer busnesau newydd a microfentrau<br>    ○ Rhaglen adeiladu uwch o eiddo masnachol o safon dda ar gyfer mentrau bach a chanolig<br>    ○ Dyrannu a gwasanaethu safleoedd cyflogaeth cenhedlaeth nesaf<br>    ○ Adnewyddu eiddo masnachol/cynllun cymhelliant ariannol ynni adnewyddadwy/effeithlonrwydd ynni<br>    ○ Cronfa Seilwaith Eiddo Cyflym |
| Cryfhau'r Cynnig Cymorth | • Gweithio gyda darparwyr cymorth busnes a chyllid i sicrhau opsiynau ariannu hygyrch i gefnogi twf busnes sy'n berthnasol i alwadau'r farchnad a chyfleoedd Canolbarth Cymru.<br>• Gweithio gyda darparwyr perthnasol i gryfhau a theilwra'r cynnig cymorth ar gyfer mentrau yng Nghanolbarth Cymru trwy weithio gyda buddsoddiadau presennol/arfaethedig ac ychwanegu gwerth atynt fel rhan o ddull gweithredu aml-asiantaeth.<br>• Cryfhau'r cynnig cymorth i ddatblygu mentrau cymdeithasol yn y rhanbarth trwy weithio â darparwyr presennol a mapio galw yn y dyfodol.<br>• Ystyried cymorth penodol ar gyfer diwydiannu allweddol i ymateb i'r newidiadau posibl o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.<br>• Archwilio'r potensial ar gyfer Rhaglen Twf Glân rhanbarthol i gefnogi busnesau sy'n pontio i ddyfodol carbon isel a manteisio ar dechnolegau carbon isel.<br>• Cryfhau mewn-fuddsoddiad gan ddarparu un pwynt cyswllt a phorth ar gyfer ymholiadau, cymorth busnes a marchnata.<br>• Cefnogi datblygiad sgiliau busnes lefel uchel a sicrhau mynediad i wasanaethau proffesiynol a hyfforddiant o safon uchel.<br>• Galluogi a chefnogi masnacheiddio addysg uwch ar gyfer ymchwil datblygu a rhaglenni trosglwyddo gwybodaeth ar gyfer atebion technegol a busnes. |

[26] Uned Ymchwil Economi Cymru/Deallusrwydd Economaidd Cymru (Tachwedd 2019) Busnesau canolig a strwythur busnes Cymru

| | |
|---|---|
| | • Datblygu gwasanaeth cyngor gyrfaoedd rhanbarthol cynhwysfawr a gwybodus i gydweddu â gweithgarwch sgiliau rhanbarthol. |
| Caffael | • Archwilio rhaglen gaffael ranbarthol Canolbarth Cymru gan ganolbwyntio ar sefydliadau 'angori' megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd, colegau, prifysgolion a fydd yn cefnogi busnes rhanbarthol trwy bwrcasu. Darparu cymorth ar gyfer busnesau i dendro a nodi cyfleoedd cydweithredol ochr yn ochr â datblygu cadwyni cyflenwi lleol. |
| Polisi | • Ardrethi busnes a rhyddhad ardrethi gan dynnu sylw at effaith ardrethi busnes ar fusnesau gwledig mewn trefni a chanol pentrefi.<br>• Archwilio'r potensial ar gyfer symleiddio prosesau cynllunio yn y safleoedd menter ranbarthol a nodwyd. |

## 6.6 Digidol

**Mae cysylltedd digidol yn rhan hanfodol o fywyd modern, gan ddylanwadu ar sut mae unigolion yn gweithio, yn cyfathrebu ac yn cael gwasanaethau. Yng Nghanolbarth Cymru, mae hyd yn oed yn fwy pwysig ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd economaidd y gellir eu datgloi trwy fuddsoddi yn ein seilwaith digidol.**

Mae cael cysylltedd digidol dibynadwy, o safon dda yn hanfodol ar gyfer preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr er mwyn cefnogi economi ffyniannus yng Nghanolbarth Cymru. Fe'i cydnabyddir bellach fel y pedwerydd cyfleustod, cydran hanfodol i gefnogi bywyd modern. Bydd buddsoddiad cydlynus mewn seilwaith digidol yn gweithredu fel sbardun ar gyfer twf busnes o safon uchel, arloesi o fewn ein sectorau a dargedir ac yn rhoi mynediad gwell i'n cymunedau at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau.

### *Potensial Twf Economaidd*

Tra bo Canolbarth Cymru wedi gweld gwelliannau yn y seilwaith digidol dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyflwyno band eang cyflymder uchel, ffeibr i ddarpariaeth eiddo a signal ffonau symudol yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn y rhanbarth yn parhau i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â Chymru a'r DU. Mae natur wledig anghysbell y rhanbarth, ei ddaearyddiaeth, ei hyfywedd masnachol a natur technolegau yn golygu bod 'mannau dim signal' yn gyffredin, yn enwedig mewn lleoliadau anodd i'w cyrraedd.

Mae cysylltedd digidol gwell, o safon dda a chyflymu'r defnydd ohono yn hanfodol i newid economi Canolbarth Cymru a galluogi twf. Bydd hyder mewn seilwaith digidol yn allweddol i gefnogi buddsoddiad mewn busnes yn y dyfodol yn y rhanbarth. Mae technolegau digidol yn trawsffurfio cyfathrebiadau, gwasanaethau, dysgu a chyfleoedd busnes ar gyflymder fwyfwy cyflym. Mae gan dechnoleg ddigidol newydd megis 5G ynghyd â'r Rhyngrwyd Pethau, deallusrwydd artiffisial a dadansoddeg data y potensial i agor busnesau newydd a gwella bywydau cymunedau.

Bydd buddsoddi yn y seilwaith digidol a chefnogi mabwysiadu a manteisio ar dechnolegau digidol cenhedlaeth nesaf yn hollbwysig i wella cynhyrchiant, manteisio ar arloesi a bod yn fwy cystadleuol fel rhanbarth. Bydd cysylltedd gwell yn golygu bod gan fusnesau fynediad at farchnadoedd, ffynonellau gwybodaeth, gwasanaethau a chyfleoedd yn y DU ac yn fyd-eang. Bydd ymyraethau cyhoeddus yn allweddol er mwyn rhoi sylw i feysydd anfasnachol sy'n annhebygol o gael buddsoddiad sector preifat.

Bydd sicrhau mynediad i gysylltedd digidol o safon dda a chefnogi sgiliau digidol yn helpu i bontio'r 'gagendor digidol' ac yn rhoi rhyddid i bobl fyw a gweithio yn fwy hyblyg gan wneud y rhanbarth yn lle mwy deniadol i fyw. Bydd hefyd yn symud ymaith y cyfyngiadau ar dwf busnes.

## *Beth Rydym am ei Gyflawni*

| AMCAN | BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD |
|---|---|
| Band eang | • Rhaglen o fesurau i estyn y band eang cyflym iawn a band gwibgyswllt yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar ffeibr i'r eiddo.<br>• Gwaith hygyrchedd ar estyn rhwydwaith "Cyflymder Ffeibr" ym mherchnogaeth gyhoeddus Llywodraeth Cymru i Ganolbarth Cymru.<br>• Coridorau Digidol gan gysylltu a chyfrannu at raglen Gogledd Cymru ar gyfer cysylltedd gwibgyswllt ffeibr llawn ar hyd coridorau trafnidiaeth strategol. |
| Technoleg symudol | • Rhaglen o fesurau i estyn gwasanaeth 4G dibynadwy da ar draws y rhanbarth. |
| Arloesi | • Y man profi gwledig a chymhwyso technoleg/ymchwil a datblygiadau newydd e.e. 5G, RWAS, y Rhyngrwyd Pethau, Sbectrwm.<br>• Creu Rhwydwaith Ardal Eang Amrediad Hir (LoRaWAN) ar gyfer anfon a derbyn signalau pŵer isel o synwyryddion digidol ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn galluogi busnesau, sector cyhoeddus, sefydliadau addysgol ac unigolion i archwilio, treialu a gweithredu technoleg y Rhyngrwyd Pethau ac anelu at gael gwasanaeth cyflawn yn y rhanbarth a manteisio arno ym maes trafnidiaeth, amaethyddiaeth, twristiaeth, rheolaeth amgylcheddol, gofal cymdeithasol a thai. |
| Seilwaith | • Rhwydwaith o ganolfannau deori busnes hwb gigabeit sector cyhoeddus i gefnogi mentrau newydd a darparu gwasanaethau cyhoeddus.<br>• Defnyddio tir ac adeiladau ac asedau sector cyhoeddus i helpu i hwyluso adleoli'r seilwaith digidol. |
| Cymorth busnes | • Cryfhau capasiti yng Nghanolbarth Cymru i ddarparu adnoddau ychwanegol i helpu i ddatgloi problemau cysylltedd ar y tir.<br>• Ysgogi defnydd a darparu cymorth a hyfforddiant er mwyn manteisio ar wasanaethau digidol a thechnoleg gan fusnesau. |
| Polisi | • Gofyniad Polisi: yn ystod cyfnod defnydd brig, gwarantu cyflymder rhwydwaith ffôn symudol lleiaf o 10mbs ar sail 50% o gryfder signal yng Nghanolbarth Cymru.<br>• Gofyniad Polisi: argaeledd cynnyrch ar gais ffeibr Openreach ym mhob rhan o Ganolbarth Cymru heb unrhyw gyfyngiadau o ran archebu.<br>• Adolygu polisi cynllunio a datblygiad a ganiateir ar gyfer seilwaith digidol i gefnogi adleoli sector preifat.<br>• Datblygu strategaeth ddigidol ranbarthol a chynllun gweithredu. |

## 6.7 Trafnidiaeth

Er mwyn ysgogi twf economaidd a denu buddsoddiad newydd mae angen i ni wella cysylltedd i'r rhanbarth ac o fewn y rhanbarth. Byddwn yn adeiladu ar ein cysylltiadau presennol i helpu i gynnig y rhwydwaith trafnidiaeth sydd ei angen i helpu i dyfu'r economi a chynyddu cynhyrchiant.

Mae rhwydweithiau trafnidiaeth dibynadwy, cydnerth, cynaliadwy a chysylltiedig yn hanfodol bwysig i dwf economaidd a thwf cymunedau yng Nghanolbarth Cymru. Mae seilwaith o safon dda yn hollbwysig o ran cysylltu pobl â chyfleoedd, cwmnïau â marchnadoedd a'r cyflenwad llafur, a chydnabyddir yn gyffredinol bod angen gwella ein hagwedd yng Nghymru at sut rydym yn galluogi ac yn buddsoddi mewn seilwaith[27]. Bydd cysylltedd trafnidiaeth gwell yn chwarae rôl hollbwysig o ran cefnogi llifoedd economaidd, gwella hygyrchedd, denu buddsoddiad a galluogi datblygiad.

### *Potensial Twf Economaidd*

Mae maint, natur anghysbell, a phatrwm gwasgaredig aneddiadau yng Nghanolbarth Cymru yn cyflwyno heriau o ran cludo nwyddau a phobl. Mae'r rhwydwaith o goridorau ffyrdd a rheilffyrdd strategol yn y rhanbarth yn fawr oherwydd yr ardal enfawr a gwmpasir ac sydd wedi'i chyfyngu gan ddaearyddiaeth y rhanbarth. Mae ffyrdd yn ffyrdd unffrwd yn bennaf, gan achosi cyflymderau cyfartalog gwael, amserau teithio hir a dibynadwyedd gwael.

Mae cydnerthedd y rhwydwaith trafnidiaeth yn hollbwysig i'r economi rhanbarthol. Mae angen buddsoddi er mwyn mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth sylfaenol sy'n cyfyngu symudiad o gwmpas y rhanbarth. Mae Strategaeth Cludo Nwyddau y Gororau a Chanolbarth Cymru, er enghraifft, yn tynnu sylw at nifer o broblemau ar gyfer busnesau a fydd yn gofyn am gyfuniad o ymyraethau sy'n cefnogi ac yn gwella'r rhwydwaith, gan wneud Canolbarth Cymru yn fwy cysylltiedig. Mae hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy a datgarboneiddio trafnidiaeth hefyd yn uchelgeisiau pwysig ar gyfer y rhanbarth.

Ein nod yw cael system drafnidiaeth ranbarthol integredig a fforddiadwy sy'n hwyluso twf economaidd, yn sicrhau mynediad at bob gwasanaeth a chyfle, yn cynnal ac yn gwella ansawdd cymunedau ac yn cefnogi'r pontio i ddyfodol carbon isel.

Bydd hyn yn ceisio:

- gwella hyder mewn amserau teithio, lleihau costau trafnidiaeth a chynyddu dibynadwyedd er mwyn sicrhau y gall nwyddau, teithio i'r gwaith a symudiadau trafnidiaeth gyhoeddus wneud newid sylweddol
- galluogi twf / buddsoddi / datblygu busnesau
- cefnogi newid moddol at deithio cynaliadwy a'r pontio i economi sero carbon
- gwella diogelwch y rhwydwaith trafnidiaeth

[27] FSB Wales (September 2019) "Are we there yet?" A Roadmap to Better Infrastructure for Wales

## *Beth Rydym am ei Gyflawni*

| AMCAN | BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD |
|---|---|
| Ffyrdd | • Gwella cysylltedd y rhanbarth, gan roi sylw i lwybrau strategol traws-ffiniol a chysylltedd ymlaen trwy'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol i rannau eraill o Gymru ac i Loegr.<br>• Mesurau gwella i goridorau ffyrdd strategol ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd / ffyrdd sirol gan gynnwys rhaglen mannau cyfyng a chysylltiadau â marchnadoedd allweddol.<br>  ○ Coridorau Trawsffiniol i Loegr (e.e. A458, A44 ac A483) a rhanbarthau eraill yng Nghymru (A487, A489 ac A486).<br>  ○ A44 i'r gorllewin o Langurig.<br>  ○ Llwybrau prifwythiennol allweddol o fewn y rhanbarth (A470, A483 ac A487/A486) |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | • Gwelliannau strategol i'r coridor rheilffyrdd megis gwella cyflymder y lein ar Lein y Cambrian ac annog cludo nwyddau pwysau ysgafn ar wasanaethau teithwyr ar Lein Arfordir y Cambrian / Prif Lein y Cambrian a datblygu cyfnewidfeydd hwb strategol yn y gorsafoedd trenau allweddol.<br>• Ymyraethau cysylltedd gwasanaeth megis gwasanaeth bob awr llawn ar Lein y Cambrian i Birmingham International; cysylltedd i Lundain gan gynnwys estyn Lein Calon Cymru a rhai o wasanaethau Prif Lein y Cambrian i Crewe ar gyfer cysylltedd i HS2 / Maes Awyr Manceinion, a datblygu llwybr strategol TrawsCymru a hybiau / cyfnewidfeydd strategol bysiau pellter hir gyda thrafnidiaeth ymatebol integredig. |
| Newid ymddygiad | • Pecynnau teithio llesol o gymorth i annog cerdded a beicio<br>• Lledaenu gwybodaeth gan ddefnyddio rhwydweithiau gwybodaeth digidol ac addysg i geisio newid ymddygiad. |
| Datgarboneiddio | • Datgarboneiddio trafnidiaeth, gydag ymagwedd strategol at ddarparu seilwaith gwefru cerbydau trydan, gwaith dichonoldeb ar botensial hydrogen. Trefi peilot posibl.<br>• Cefnogi newid moddol i drafnidiaeth gyhoeddus. |
| Integreiddio | • Mesurau cysylltedd gwledig megis priffyrdd clyfar, hybiau ffyrdd a rheilffyrdd a thocynnau integredig a thrafnidiaeth ymatebol integredig. |

## 6.8 Sgiliau a Chyflogaeth

Mae marchnad lafur effeithiol a gweithredol yn hanfodol er mwyn i economi Canolbarth Cymru dyfu a ffynnu. Bydd sicrhau'r cyflenwad priodol o sgiliau a gweithlu galluog i ateb gofynion busnes a diwydiant yn hanfodol i'n llwyddiant yn y dyfodol.

Mae cryfderau sylweddol gennym yn rhanbarthol yn ein gweithlu, ond mae gennym wendidau strwythurol yn y seilwaith sgiliau sy'n rhwystro'r farchnad lafur ranbarthol ar hyn o bryd.

Mae'n hollbwysig bod ein sefydliadau sgiliau yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ysgogi cynhyrchiant a thwf rhanbarthol, gan ffurfio'r sail ar gyfer llwyddiant ein canolfannau cyflogaeth yn y dyfodol. Mae angen gwella ansawdd a pherthnasedd darpariaeth er mwyn cael ein harwain gan ddiwydiant, a bod yn ymatebol i'r cyfleoedd yn rhanbarthol er mwyn cefnogi swyddi gwerth uchel a chynhyrchiol. Bydd hyn yn golygu newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio ar y cyd yn y rhanbarth, o ddarpariaeth addysgol i lwybrau gyrfa ac ymgysylltu â diwydiant i alluogi ein preswylwyr i gael at gyfleoedd, waeth beth fo'u lleoliad yng Nghanolbarth Cymru.

### *Potensial Twf Economaidd*

Mae gan Ganolbarth Cymru weithlu hynod gymwysedig a medrus. Mae cyrhaeddiad oedran ysgol yng Nghanolbarth Cymru yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran uwch o'r boblogaeth oedran gweithio yn gymwysedig hyd at lefel gradd o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, tra bo diweithdra ar lefelau hanesyddol isel. Mae'r cryfderau hyn yn darparu'r sylfeini cywir i Ganolbarth Cymru ar gyfer galluogi twf.

Mae Canolbarth Cymru hefyd yn wynebu'r her sy'n gysylltiedig â natur unigryw'r rhanbarth. Mae gweithlu sy'n dirywio yn y rhanbarth, gan bwysleisio'r angen i gadw a denu pobl sy'n weithredol yn economaidd i Ganolbarth Cymru. Mae prifysgolion y rhanbarth yn darparu biblinell o bobl ifanc talentog a medrus ond ceir cyfleoedd i gynyddu nifer y graddedigion sy'n cael hyd i gyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru. Mae pobl ifanc leol sy'n symud i ffwrdd i astudio yn ei chael hi'n anodd i gael hyd i gyflogaeth leol a fyddai'n eu galluogi i ddychwelyd i'r rhanbarth, gan arwain at golli talent o Ganolbarth Cymru.

Mae graddfa Canolbarth Cymru a'i boblogaeth wasgaredig yn herio cyflenwi darpariaeth addysg. Mae angen datblygu piblinell sgiliau ym maes adeiladu, TGCh a sgiliau busnes. Mae sgiliau a heriau recriwtio yn bodoli yn y meysydd seiliedig ar sector canlynol[28]:

- **Deunyddiau Uwch, Gweithgynhyrchu ac Ynni:** ceir anawsterau recriwtio o fewn galwedigaethau allweddol megis peirianwyr, weldwyr, rolau swyddfa CAD/darlunio ac electro-dechnegol.
- **Amaethyddiaeth a Bwyd:** Gallai effaith bosibl Brexit ynghyd â natur dymhorol cyflogaeth amaethyddol arwain at brinder sgiliau. Ceir prinder milfeddygon, technegwyr llaeth, gwyddonwyr a microbiolegwyr hefyd.
- **Diwylliant a Hamdden:** Anawsterau recriwtio ar gyfer cogyddion a swyddi arlwyo, glanhau a chadw tŷ a swyddi cynnal a chadw.
- **Iechyd a Gofal Cymdeithasol:** Mae cadw staff yn broblem fawr, ond mae recriwtio yn broblem barhaus ar gyfer gweithwyr cymorth gofal, nyrsys, staff gofal cartref a staff cegin/glanhau.

Wrth i'n demograffig rhanbarthol sy'n newid symud tuag at boblogaeth sy'n heneiddio, bydd hyn yn creu ei heriau ei hun o ran sgiliau a chyflogaeth:

- **Gweithlu sy'n heneiddio:** oherwydd cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth.

[28] Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol De-Orllewin a Chanolbarth Cymru 2018

- **Gweithlu aml-fedrus:** wrth i bobl aros yn y gwaith yn hwy, bydd angen nifer o gyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes i sicrhau bod unigolion yn parhau i fod yn gyflogadwy ac yn fedrus.
- **Iechyd a Gofal:** bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn ysgogi'r galw am sgiliau iechyd a gofal cymdeithasol gan roi mwy o bwysau ar allu'r sector i recriwtio'r gweithlu gofynnol.

Mae busnesau Canolbarth Cymru yn llai tebygol o drefnu hyfforddiant ar gyfer eu gweithlu ac yn fwy tebygol o adrodd bod ganddynt swyddi gwag anodd i'w llenwi o'i gymharu â chyflogwyr mewn rhanbarthau eraill o Gymru[29]. Mae dros hanner cyflogwyr lleol hefyd yn adrodd nad yw pobl ifanc sy'n cyrraedd y farchnad lafur yn cael eu hystyried yn barod ar gyfer gwaith. Mae natur y gwaith a'r galw am sgiliau yn newid a bydd yn parhau i newid dros y 15 mlynedd nesaf. Mae un o bob tair swydd yng Nghymru[30] mewn perygl oherwydd awtomatiaeth erbyn dechrau 2030 a swyddi medrus is yw'r rhai sydd mwyaf mewn perygl. Ar yr un pryd ag awtomatiaeth, mae technoleg ddigidol a ffyrdd mwy hyblyg o weithio yn cynhyrchu cyfleoedd ar gyfer twf mewn ardaloedd sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel megis Canolbarth Cymru.

## *Beth Rydym am ei Gyflawni*

Yn gyntaf oll mae'n rhaid i Ganolbarth Cymru sicrhau bod ganddo system sgiliau seiliedig ar dystiolaeth ac ymroddedig a all roi'r ffocws angenrheidiol gan ddarparwyr addas ar draws y sbectrwm er mwyn ymateb yn well i ofynion diwydiant a manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc a'r boblogaeth bresennol sy'n weithredol yn economaidd.

Ceir bylchau ar hyn o bryd yn ein darpariaeth sgiliau a chyflogaeth sy'n rhoi hyfywedd ein pobl ifanc mewn perygl yn y dyfodol. Mae'n rhaid i hyn newid.

| AMCAN | BETH SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD |
|---|---|
| Cysondeb strategol gwell rhwng darpariaeth â diwydiant | • Ecosystem sgiliau ymrwymedig ac ymatebol yng Nghanolbarth Cymru sy'n ysgogi newid sefydliadol a diwylliannol er mwyn cysoni'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau ag anghenion economaidd (megis y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau ar gyfer Canolbarth Cymru). |
| Deallusrwydd diwydiant cryfach | • Presenoldeb addysg bellach ac addysg uwch cryfach ar draws y rhanbarth cyfan. Cydnabod rôl sefydliadau ehangach (e.e. CAT) ac archwilio cyfleoedd i gryfhau darpariaeth.<br>• Deallusrwydd cryfach ar ofynion sgiliau a hyfforddiant gan gyflogwyr i lywio'r ddarpariaeth academaidd/alwedigaethol.<br>• Nodi galwadau/tueddiadau a chyfleoedd allweddol yn y dyfodol.<br>• Datblygu prentisiaethau sy'n cael eu hysgogi gan ddeallusrwydd busnes lleol ar gyfer strategaethau gweithlu yn y dyfodol. |
| Teilwra sgiliau rhanbarthol a chymorth cyflogaeth | • Teilwra dan arweiniad diwydiant y ddarpariaeth ar draws academia, darpariaeth breifat a thrydydd sector.<br>• Datblygu llwybrau gyrfa ac arweiniad i hybu twf mewn sectorau economaidd rhanbarthol allweddol.<br>• Datblygu pilblinell sgiliau a chyflogaeth o weithgarwch i gefnogi gweithgarwch rhanbarthol. |
| Cymorth wedi'i dargedu | • Rhaglenni sgiliau hyblyg ac ymatebol i gefnogi'r cyflenwad o lafur sy'n gydnaws â'n sectorau a phrosiectau strategol allweddol. |
| Buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith sgiliau | • Buddsoddi mewn canolfannau hyfforddi a chyfleusterau arbenigol ar draws Canolbarth Cymru ochr yn ochr â chreu academïau gwledig. |

[29] Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU (UKCESS) 2015
[30] The Impact of AI in UK Constituencies: Where will automation hit hardest? Future Advocacy, 2017

# 7 Ein Cyfraniad

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi ar adeg o ansicrwydd economaidd a gwleidyddol maw, yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Fodd bynnag, mae partneriaid yn y rhanbarth yn glir bod potensial mawr gan Ganolbarth Cymru i gyfrannu at economi Cymru a'r DU, ond mae mwy i'w wneud os yw'r economi ranbarthol am gyrraedd ei photensial llawn a pharhau'n gydnerth yn wyneb unrhyw heriau, ac os ydym am symud i'r lefel nesaf.

Mae hefyd yn cynnig ffordd newydd o weithio i roi sylw i'r heriau cyffredin gan fanteisio yr un pryd ar ein cyfleoedd ar gyfer twf, gan wneud cynnig rhanbarthol cryf a chredadwy i helpu i gyfrannu at yr uchelgais cenedlaethol a'i wireddu.

## 7.1 Rhagolygon Economaidd

Mae'r rhagolygon economaidd diweddaraf gan PwC[31] yn rhagweld cyfradd twf economaidd cymedrol sy'n arafu ar gyfer y DU yn 2019 ac ymlaen i 2020. Mae hyn yn cymryd y bydd ymadawiad trefnus o'r Undeb Ewropeaidd ond heb lawer o wybodaeth am ein perthynas masnachu yn y dyfodol ar ôl gadael.

Mae gwariant defnyddwyr wedi parhau i hybu economi'r DU gyda thwf enillion real cryfach yn 2019 at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r farchnad dai a buddsoddiad busnes wedi gweld dirywiad oherwydd ansicrwydd gyda'r disgwyl i gyfraddau llog aros yn weddol sefydlog hyd nes bod mwy o eglurder ynghylch Brexit a'r economi fyd-eang.

Mae cynhyrchedd yng Nghymru yn parhau'n llawer is na chyfartaledd y DU, ac wedi'i nodi fel y rhanbarth sydd â'r cynhyrchiant isaf yn y DU, 18% yn is na chyfartaledd y DU.

Cydnabyddir yn adroddiad PwC fod amrywiadau mewn cynhyrchiant rhanbarthol y DU i'w priodoli i lefelau sgiliau cymharol waeth, tra bod cysylltiadau trafnidiaeth hefyd yn ffactor allweddol wrth esbonio'r amrywiadau rhanbarthol hyn, gan eu gwneud yn darged clir ar gyfer ymyraethau busnes a chyhoeddus. Mae'n nodi os yw ardaloedd gyda chynhyrchiant is na'r cyfartaledd yn llenwi hyd yn oed hanner eu bwlch cyfredol, gallai'r hwb i Gynnyrch Domestig Gros y DU fod cymaint â 4% neu oddeutu £83 biliwn.

Rydym wedi amlinellu gweledigaeth sy'n rhoi sylw i'n blaenoriaethau twf ochr yn ochr â chynigion ar gyfer seilwaith economaidd sylfaenol. Mae ein dadansoddiad yn adran 3 yn dangos bod Canolbarth Cymru yn gymharol ar ôl ei hôl hi o'i gymharu â chyfartaleddau Cymru a'r DU, gan wneud yr angen am fuddsoddiad cynaliadwy a diriaethol yn hollbwysig os ydym am roi sylw i'n huchelgeisiau a datgloi ein potensial i helpu i dyfu economi'r DU.

## 7.2 Cyfatebiaeth Strategol â Pholisi Cenedlaethol

Rhoddwyd ystyriaeth gryf trwy gydol datblygu'r ddogfen hon at sicrhau cysondeb llawn ag uchelgais Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'n cyflwyno cynnig clir ynghylch sut y byddwn yn cydweithio'n rhanbarthol i fanteisio ar ein cryfder o asedau a chyfleoedd i wneud cyfraniad arwyddocaol ac effeithiol at economi Cymru a'r DU.

### *Llywodraeth y DU*

Ceir cydnabyddiaeth er bod gan economi'r DU gryfderau arwyddocaol mae cyfleoedd a thwf yn parhau wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y wlad. Mae Strategaeth Ddiwydiannol y DU yn amlinellu pum sylfaen cynhyrchiant, sef syniadau, pobl, seilwaith, amgylchedd busnes a

[31] [32] Dangosyddion llesiant economaidd lluosog a ddefnyddir yn ôl diffiniadau ONC – gweler y set dangosydd economaidd llesiant ddiweddaraf gan ONS yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/datasets/economicwellbeingreferencetablesummaryoffigures

lleoedd, a phedair her fawr, gan ymateb i newidiadau byd-eang; deallusrwydd artiffisial a data; cymdeithas sy'n heneiddio, twf glân a dyfodol symudedd.

Ceir rôl gydnabyddedig glir ar gyfer awdurdodau lleol, gan weithio'n unigol ac mewn partneriaeth ar draws sectorau a'r Llywodraeth, i ysgogi twf economaidd rhanbarthol a gwella cynhyrchiant. Mae cydweithredu i roi sylw i heriau cyffredin yn thema ganolog, gydag ymrwymiad i adeiladu ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu a chyflenwi Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf ar draws y DU.

Mae blaenoriaethau diweddar sy'n dod i'r amlwg ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU hefyd yn atgyfnerthu'r dyhead i roi sylw i dwf economaidd rhanbarthol anwastad ar draws y DU.

### *Llywodraeth Cymru*

Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw adeiladu Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogel, yn iach ac yn weithredol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig ac yn gysylltiedig. Mae'n cydnabod pedair thema allweddol fel rhan o'i strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb', sef ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol a dysgu, unedig a chysylltiedig.

Mae'n amlinellu meysydd allweddol â blaenoriaeth sy'n mynegi uchelgais polisi cenedlaethol wedi'i gysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n canolbwyntio ar integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau er mwyn galluogi ymyrraeth gynnar ac atal, gan greu canlyniadau gwell yn yr hirdymor.

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel – ni all ein gweledigaeth economaidd gael ei hystyried ar wahân i bryderon amgylcheddol a newid hinsawdd, ond mae'n cynnwys datgarboneiddio ac economi carbon isel wrth ei gwraidd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn amlinellu'n benodol uchelgais Llywodraeth Cymru i dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb. Mae'n cynrychioli newid polisi arwyddocaol i gydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn adeiladu cydnerthedd a sicrhau dyfodol economi Cymru. Mae'n amlinellu Contract Economaidd newydd rhwng Llywodraeth a busnes, meysydd gweithredu, cymorth ar gyfer sectorau thematig a'r economi sylfaenol, ochr yn ochr ag ymagwedd newydd at gefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol.

Mae partneriaid rhanbarthol yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a fydd yn cyd-fynd â'r ddogfen hon. Bydd y ddwy ddogfen yn adlewyrchu ei gilydd o ran cynnwys i fynegi ein cyd-flaenoriaethau ar gyfer economi Canolbarth Cymru.

### *Blaenoriaethau Lleol*

Mae datblygu Tyfu Canolbarth Cymru yn adeiladu ar y gwaith y mae awdurdodau lleol, prifysgolion a sefydliadau partner eisoes yn ei wneud, gan barhau i gefnogi economi Canolbarth Cymru.

Nid yw cydweithredu'n rhanbarthol i gefnogi economi Canolbarth Cymru yn tynnu sylw oddi wrth, neu'n cymryd lle yr hyn y bydd sefydliadau lleol yn parhau i'w wneud i gefnogi twf economaidd lleol a chefnogi ein cymunedau lleol. Mae'n glir bod rhoi sylw i'r heriau a datgloi cyfleoedd economi Canolbarth Cymru yn gofyn am ymdrechion arwyddocaol, cynaliadwy ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gyda phawb yn gweithio lawn yn llaw ac ar gyfer y tymor hir.

## 7.3 Casgliad

Wynebwn ansicrwydd mawr. Bydd yr angen i fod yn hyblyg ac yn gyflym i addasu ein hymagwedd yn hanfodol. Mae ein hymagwedd wedi cael ei datblygu gyda hyn mewn golwg.

Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod angen ymyrraeth sylweddol er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi sylw i'r anghydbwysedd hwn rhwng ein perfformiad economaidd ac ardaloedd eraill y DU ac os ydym am symud i fod ar yr un lefel â gweddill economi'r DU. Rhaid i ni sicrhau gyda'n gilydd ein bod mor gydnerth â phosibl wrth wynebu unrhyw newidiadau posibl mewn amgylchiadau economaidd a allai rwystro ymhellach yr hyn sydd eisoes yn economi gymharol wan ei berfformiad. Ceisio cau'r bwlch hwn fydd ein huchelgais.

# 8 Gwneud iddo ddigwydd

Bydd gwireddu ein blaenoriaethau economaidd strategol a fydd yn creu newid cynaliadwy i economi Canolbarth Cymru yn gofyn am ffordd newydd o weithio gyda chydlyniant a chymorth cryf gan ystod eang o randdeiliaid ar draws diddordebau gwleidyddol, sefydliadol a sectoraidd.

## 8.1 Bargen Twf Canolbarth Cymru

Mae'r rhanbarth wedi cael cyfle i negodi Bargen Twf ar gyfer Canolbarth Cymru rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae hyn nid yn unig yn rhoi cyfle i Ganolbarth Cymru wireddu'r amcanion allweddol a nodwyd o fewn y ddogfen hon, ond mae hefyd yn sefydlu ac yn cadarnhau perthnasoedd gweithio hirdymor newydd a gwell.

## 8.2 Cefnogi a Galluogi Canolbarth Cymru

Ochr yn ochr â'r Fargen Twf a ffyrdd newydd o weithio, ceisiwn weithio'n wahanol gyda'r ddwy Llywodraeth i ddatgloi cyfleoedd buddsoddi pellach ar draws Canolbarth Cymru. Mae partneriaid rhanbarthol wedi mynegi a dangos dymuniad i gydweithredu, integreiddio ac arloesi er mwyn cael canlyniadau gwell a mwy strategol i breswylwyr Canolbarth Cymru sy'n seiliedig ar ddyheadau hirdymor.

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i fwrw ymlaen â'n Bargen Twf ochr yn ochr â'r cyfleoedd cyllido cyfredol a newydd er mwyn gwireddu ein gweledigaeth. Mae gwaith yn parhau i roi sylw i'r heriau capasiti yn rhanbarthol, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r ddwy Lywodraeth i sicrhau bod y capasiti iawn yn ei le i ddatblygu, rheoli a gwireddu ein huchelgeisiau cyffredin.

## 8.3 Llywodraethu

Mae partneriaid yng Nghanolbarth Cymru wedi gwneud llawer i sefydlu strwythurau llywodraethu cadarn ac atebol gyda phrosesau gwneud penderfyniadau eglur, sicrwydd cynrychiolaeth, a thryloywder proses. Mae cytundeb rhyng-awdurdod wedi cael ei lofnodi rhwng Cynghorau Sir Powys a Cheredigion, gan roi trefniadau llywodraethu a rheoli clir yn eu lle i fwrw ymlaen â datblygu'r Fargen Twf.

| Grŵp | Aelodaeth | Rôl |
|---|---|---|
| Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru (Cyd-bwyllgor) | Aelodau Cabinet yr Awdurdod Lleol; Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd (pob un â phleidlais), a hefyd Aelodau cyfetholedig heb bleidlais. | Arweinyddiaeth, gwneud penderfyniadau strategol ac atebolrwydd ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru. |
| Grŵp Strategaeth Economaidd | Arweinwyr busnes enwebedig ar draws Canolbarth Cymru | Dull cynghorol, cymorth ac eiriolaeth y sector preifat ar gyfer datblygu a chyflenwi'r Fargen Twf. Mae rôl weithredol gan y grŵp o ran cynghori Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru i sicrhau bod llais y sector preifat yn ganolog i'r gwaith. |
| Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol | *I'w gadarnhau* | Ar hyn o bryd mae'r rhanbarth yn ceisio sefydlu ei drefniadau ei hunan a fyddai'n cysoni ac yn rhoi sylw gwell i anghenion pobl a busnesau Canolbarth Cymru. |
| Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | Aelodaeth traws-sector eang | Partneriaeth traws-sector, gan sicrhau mewnbwn ac ymgysylltu eang a fydd yn helpu i gynghori ar y Fargen Twf ond hefyd yn trafod materion ehangach wrth fanteisio ar gyfleoedd economaidd rhanbarthol. |

# ADRAN 2: MAP FFORDD AR GYFER BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein map ffordd arfaethedig i ddatblygu Bargen Twf ar gyfer Canolbarth Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Yn Nhachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fuddsoddiad cychwynnol o £55m, wedi'i ddisgrifio fel blaendal yn lle derbyn cynigion uchelgeisiol a mwy manwl y rhanbarth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dangos ei chefnogaeth barhaus dros Fargen Twf ar gyfer Canolbarth Cymru gyda'r cwantwm i'w negodi.

Yn draddodiadol, mae Bargeinion Twf yng Nghymru wedi cael eu datblygu gyda chyfres ragnodedig o brosiectau sy'n cael eu cytuno ar y cychwyn. Fodd bynnag, mae Canolbarth Cymru wedi dysgu gwersi gan y rhanbarthau eraill ar draws Cymru a'r gwledydd datganoledig eraill y gall yr amgylchedd rhaglen newid dros amser. Mae'n bosib na fydd prosiectau yn datblygu fel y bwriadwyd yn wreiddiol, bydd amgylchiadau allanol yn newid, ac ni fydd pob prosiect ar yr un lefel o aeddfedrwydd ar yr un pryd. Mae hyn wedi arwain at gwneud ymdrechion mawr yn rhy gynnar ac oedi o ran amser. Rydym wedi cymryd yr amser dros y misoedd diwethaf i gynllunio ein dull gweithredu, cael y llywodraethu'n gywir a cheisio lleihau'r risgiau o'r cychwyn cyntaf trwy ddulliau rheoli ac ymgysylltu da.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn datblygu'r Fargen Twf a'n ffyrdd o weithio er mwyn gallu ymateb yn hyblyg i dirwedd economaidd, polisi a chyllido sy'n newid. Bydd heriau byd-eang, gadael yr Undeb Ewropeaidd a newidiadau gwleidyddol i gyd yn golygu bod rhaid i ni fod yn hyblyg.

Mae Adran 1 y ddogfen hon yn amlinellu ein Cynllun Economaidd Strategol. Mae'n nodi blaenoriaethau allweddol y rhanbarth ar gyfer buddsoddi yn ein pobl, ein busnesau a'n lleoedd mewn modd cynhwysol a chynaliadwy. Rydym wedi datgan achos cryf dros fuddsoddi, yn seiliedig ar y tanberfformiad economaidd parhaus oherwydd ein heriau strwythurol, ond wedi'i gysoni â chyfle ac uchelgais sector preifat cryf. Mae hyn yn cynrychioli achos cryf dros fuddsoddiad cyhoeddus i helpu i gyflawni newid trawsffurfiol.

Bydd ein cynigion Bargen Twf yn chwarae rôl allweddol o ran cyflawni elfennau'r strategaeth hon. Ceir diddordeb cryf ar hyn o bryd yn y rhanbarth i ddatblygu gweithgarwch o gwmpas nifer o gyfleoedd allweddol, ac rydym wedi datblygu'r map ffordd hwn er mwyn i ni sicrhau bod y buddsoddiadau cywir yn cael eu datblygu a fydd yn gwireddu ein gweledigaeth ac yn gwneud gwir wahaniaeth i economi Canolbarth Cymru.

Rydym wedi amlinellu tair rhaglen gydag amcanion buddsoddi clir a gaiff eu rheoli fel dull portffolio. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn reoli'r Fargen Twf mewn modd hyblyg er mwyn ymateb i gyfleoedd ac amgylchiadau economaidd sy'n newid, gan sicrhau yr un pryd ein bod yn buddsoddi yn y pethau iawn, a bod gennym brosesau llywodraethu, rheoli a sicrwydd clir gydag ymgysylltiad effeithiol trwyddi draw. Mae hefyd yn sicrhau bod modd newid graddfa'r portffolio wrth i fuddsoddiad a chyllid pellach fod ar gael.

Cynigiwn fod hyn yn datblygu fel tair rhaglen ryng-gysylltiedig sy'n cyd-ddibynnol:

- **EHANGU ein Heconomi:** Datblygu cyfleoedd newydd o'n hasedau, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd gwerth uchel sy'n cefnogi twf.
- **CRYFHAU ein Heconomi:** Cefnogi ein diwydiannau a'n gweithlu presennol i fod yn fwy cydnerth trwy adeiladu capasiti a chreu'r amodau iawn ar gyfer twf yn y dyfodol.
- **CYSYLLTU â'n Heconomi:** Gwella gallu digidol a chysylltedd o fewn, ar draws a'r tu allan i'r rhanbarth i sicrhau bod y rhanbarth yn lle deniadol i weithio, byw a chwarae.

Mae cyhoeddi'r ddogfen hon yn nodi dechrau datblygiad ffurfiol gweithgarwch a fydd yn symud ein Bargen Twf ymhellach ymlaen ar gyfer Canolbarth Cymru ac yn arwain at roi cynnig ffurfiol gerbron y ddwy Lywodraeth yn 2020 i gytuno ar ein Penawdau Telerau.

# 2. Y Cyd-destun Strategol

Mae Adran 1 y ddogfen hon yn amlinellu'r cyd-destun strategol a'r achos cyffredinol dros newid yn economi Canolbarth Cymru.

Mae'r adran hon yn amlinellu'n benodol y cwmpas ac yn diffinio'r rôl y gall y Fargen Twf ei chwarae wrth sicrhau'r canlyniadau gofynnol ar gyfer economi Canolbarth Cymru.

## *Yr Angen am Fuddsoddiad Cyhoeddus yn economi Canolbarth Cymru*

Mae canlyniad ein gwaith datblygu hyd yma yn datgan yn eglur bod achos cryf a chlir dros fuddsoddiad cyhoeddus yn economi Canolbarth Cymru i fynd i'r afael â degawdau o danfuddsoddid a methiant y farchnad.

Mae gan Ganolbarth Cymru gyfoeth o gyfleoedd sy'n cael eu rhwystro ar hyn o bryd gan wendidau economaidd strwythurol y mae angen rhoi sylw iddynt ar frys.

Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym yn glir iawn bod heriau gennym i'w goresgyn y gellir rhoi sylw iddynt dim ond trwy ymyrraeth arwyddocaol a chyson gan y sector cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â methiant y farchnad:

- **CYNHYRCHIANT SYDD AR EI HÔL HI:** Mae Canolbarth Cymru yn parhau i fod ar ôl hi o'i gymharu â rhanbarthau eraill Cymru a'r DU yn nhermau real a fesul pen oherwydd natur dymhorol a strwythur ei sylfaen gyflogaeth.
- **POBLOGAETH SY'N DIRYWIO AC YN HENEIDDIO:** tystiolaeth o leihad mewn ffigurau poblogaeth a demograffig sy'n newid gan ddangos y 'canol cywasgedig' o boblogaeth hŷn weddol uchel a phoblogaeth oedran gweithio gymharol isel.
- **SYLFAEN ECONOMAIDD GUL A BREGUS:** Arwain at anghydbwysedd mewn cyflogaeth a chynhyrchiant. Y cyfranwyr mwyaf at Werth Ychwanegol Gros fesul sector yw gweithgynhyrchu, gwerthu tai, cyfanwerthu a manwerthu, tro bo amaethyddiaeth yn darparu'r niferoedd cyflogaeth mwyaf, ond yn cyfrannu Werth Ychwanegol Gros cymharol lai. Mae natur dymhorol cyflogaeth hefyd yn ychwanegu at natur fregus yr economi.
- **DIRYWIAD DISGWYLIEDIG MEWN CYFLOGAETH:** mae'r rhagolygon yn dangos y bydd economi Cymru yn tyfu gan 1.7% yn ystod y cyfnod 2018-2040 (+ 24,000 o swyddi) tra y disgwylir i economi Canolbarth Cymru ddirywio 3.45% (lleihad o 3,352 o swyddi), tra bo disgwyl i'r DU dyfu gan 7.4% dros yr un cyfnod.
- **MARCHNAD LAFUR SEFYDLOG SY'N GWANHAU:** mae bylchau mewn darpariaeth sgiliau ac isadeiledd er mwyn bodloni gofynion y diwydiant yn ddigonol yn cael eu gwaethygu gan ddiffyg ffocws ar y mater yng Nghanolbarth Cymru. Mae gwendidau yn yr isadeiledd sgiliau rhanbarthol yn gwaethygu'r cyfleoedd cyflogaeth ac addysgol gan arwain at lai o gydraddoldeb cyfle a symudedd llafur ac atgyfnerthu allfudo.
- **METHIANT Y FARCHNAD:** Mae gwendidau economaidd strwythurol sylfaenol ynghyd â degawdau o danfuddsoddid gan y sector cyhoeddus wedi gwaethygu methiant y farchnad. Mae methiant y farchnad i'w weld trwy'r economi gyfan a cheir tystiolaeth glir o hyn mewn cyfraddau adeiladu masnachu a phreswyl weddol sefydlog a gwan, sylfaen busnes sy'n dirywio ac yn culhau, a chyflwr annigonol ein hisadeiledd grid digidol, ffyrdd ac ynni, rhywbeth y gellir rhoi sylw iddo dim ond gydag ymyraethau gan y sector cyhoeddus.
- **NATUR GUDD ECONOMI WLEDIG:** mae cyflogaeth weddol gryf a data diweithdra isel yn cuddio tâl isel a thangyflogaeth. Mae lefelau uchel o hunangyflogaeth a gweithio o gartref ar y cyd ag incwm isel yn cuddio tlodi gwledig sy'n gwir achos o bryder ymysg awdurdodau lleol a llunwyr polisïau yng Nghanolbarth Cymru.

## *Y newidiadau y mae angen i ni eu gweld*

Mae cyfres gychwynnol o ddangosyddion newid strategol wedi'u nodi yma rydym yn cynnig eu mabwysiadu er mwyn rheoli ein portffolio. Byddant yn ffurfio rôl allweddol yn y broses asesu a datblygu i sicrhau ein bod yn cefnogi'r buddsoddiadau cywir a fydd yn cyflawni'r canlyniadau cywir, a byddant yn ganolog i'n gweithgarwch monitro a gwerthuso.

Gallwn fod yn glir ynghylch cyfraniad ein gweithgarwch tuag at y dangosyddion hyn dim ond pan fydd modelu economaidd yn cael ei gwblhau fel rhan o ddatblygu'r achosion busnes rhaglenni pan fydd achosion busnes amlinellol gennym ar gyfer prosiectau unigol. Ar gyfer datblygiadau masnachol a busnes, bydd angen cynnal arfarniad galw hefyd fel rhan o'r dadansoddiad i sicrhau ein bod yn ystyried ddadleoli, amnewid ac adleoli posibl.

Wrth i Fargen Twf Canolbarth Cymru ddatblygu, bydd rhaid cael dangosyddion ychwanegol sy'n caniatáu ar gyfer dadansoddiad effeithiol o'r ffordd y mae ymyraethau rhanbarthol arfaethedig yn effeithio ar gynhyrchiant ar draws yr ardaloedd sy'n ffurfio rhanbarth Tyfu Canolbarth Cymru, er enghraifft, gwarediad gros o Werth Ychwanegol Gros ar draws y rhanbarth.

Byddwn hefyd yn archwilio ystyriaethau ehangach i fonitro'r effeithiau ar ein heconomi rhanbarthol y tu hwnt i'r dangosyddion economaidd traddodiadol, gan ystyried symudedd cymdeithasol a llesiant, data amgylcheddol ac iechyd.

Wrth i ymyraethau rhanbarthol gael eu datblygu a'u cyflenwi bydd yn bwysig ffurfio a monitro sylfaen economaidd er mwyn asesu effaith yr ymyraethau. Rhaid i'r data fod ar gael ar lefel ronynnog lle'n bosibl er mwyn darparu lefel o ddeallusrwydd ystyrlon a defnyddiol.

Mae data economaidd yn dechrau cael ei gyhoeddi ar sail ranbarthol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'u hadrannau perthnasol e.e. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae llawer o ddata ar gael o hyd gan ardaloedd NUTS3, gan ei gwneud hi'n amhosib dadagregu data a llunio darlun economaidd o Ganolbarth Cymru. Mae angen gwneud gwaith parhaus i sicrhau bod data perthnasol a defnyddiol ar gael yn rhwydd.

Bydd cysoni ymdrechion ein hymyraethau ar y cyd yng Nghanolbarth Cymru ar draws y sector cyhoeddus, a cheisio gwella'r deallusrwydd a chyd-ddealltwriaeth o economi Canolbarth Cymru yn hanfodol yn y dyfodol.

**Bargen Twf Canolbarth Cymru – Dangosyddion Newid Strategol[32]**

| Dangosydd | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Twf Cynhyrchiant Rhanbarthol** | | | | | | |
| Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) (£ miliwn) | 3,182 | 3,410 | 3,596 | 3,621 | 3,597 | |
| Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen (£) | 15,291 | 16,451 | 17,430 | 17,613 | 17,509 | |
| Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) mewn sectorau gwerth uchel (£ miliwn)* | 478 | 551 | 620 | 636 | 581 | |
| Cynnydd yng nghyfran y boblogaeth oedran gweithio (%) | -0.7 | -0.5 | -0.5 | -0.5 | -0.4 | |
| **Cynyddu Cyflogaeth a Sgiliau** | | | | | | |
| Twf Cyflogaeth (%) | +2.3 | -0.8 | +1.6 | +1.6 | -0.6 | |
| Cyflogaeth mewn sectorau Gwerth Uchel | 19,500 | 19,300 | 17,300 | 22,000 | 20,800 | |
| Cynnydd yng nghyfran y boblogaeth sydd â chymwysterau Lefel NVQ 4 ac uwch (%) | +2 | +1.8 | +2.5 | -3.2 | +1.5 | |
| **Cynyddu Cyflogaeth a Sgiliau** | | | | | | |
| Incwm Gwario Gros y Cartref (£ y pen) | 16,050 | 16,389 | 16,351 | 16,539 | Amh | |

[32] Dangosyddion llesiant economaidd lluosog a ddefnyddir yn ôl diffiniadau ONC – gweler y set dangosydd economaidd llesiant ddiweddaraf gan ONS yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/datasets/economicwellbeingreferencetablesummaryoffigures

*Sectorau gwerth uchel wedi'u nodi fel gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol

# 3. Yr Achos dros Newid

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru erbyn 2035 wedi cael ei hamlinellu fel:

> ***"Rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n cyflawni twf economaidd wedi'i ysgogi gan arloesi, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog."***

## *Canlyniadau Strategol*

Er mwyn sicrhau newid hirdymor i economi Canolbarth Cymru, rhaid cael ffocws cryf ar gael canlyniadau statudol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r weledigaeth a'r dangosyddion newid strategol er mwyn i ni fod yn hyderus ein bod yn buddsoddi yn y gweithgarwch iawn i sicrhau newid.

- **Rhoi'r Fargen Twf fel cydran graidd o fewn ymdrechion adfywio economaidd rhanbarthol ehangach.**
- **Denu a datblygu diwydiannau sy'n ysgogi cynhyrchiant, enillion a thwf cyflogaeth rhanbarthol, gan fanteisio ar gryfderau ein hasedau ymchwil, diwydiannol a medrus.**
- **Denu a datgloi buddsoddiad sector preifat o fewn y rhanbarth trwy sicrhau'r amgylchedd iawn ar gyfer twf.**
- **Lleoli Canolbarth Cymru fel y pwerdy sy'n datblygu cryfderau diwydiannol presennol i gynhyrchu cyfleoedd diwydiannol a chyflogaeth newydd.**
- **Lleihau allfudo a chadw gweithlu medrus trwy gyflogaeth dan arweiniad diwydiant a chymorth sgiliau ar y cyd â llwybrau cyflogaeth clir.**
- **Defnyddio buddsoddiadau'r Fargen Twf i ddylanwadu a bod yn sbardun i fuddsoddiadau pellach a newidiadau polisi er mwyn sicrhau twf cyfartal, cynhwysol ar draws y rhanbarth cyfan.**

Mae'r Canlyniadau Strategol hyn yn sefydlu cyfeiriad cyffredinol a chwmpas Portffolio'r Fargen Twf. Bydd hyn yn helpu i ddiffinio ac arwain ymagwedd y rhanbarth at benderfynu'r rhaglenni a'r prosiectau sy'n cael eu datblygu i ymateb i anghenion economi Canolbarth Cymru.


Ni fydd pob rhaglen/prosiect yn cyflawni'r holl ganlyniadau yr un pryd neu drwy'r un gweithgarwch. Bydd rheoli'r Fargen Twf fel Portffolio yn sicrhau bod cydbwysedd priodol o fuddsoddiadau sy'n cyfrannu ar yr holl ganlyniadau strategol ar y cyd, gan sicrhau Bargen Twf sy'n wirionedd ryng-ddibynnol a chydlynol, lle mae swm y cyfan yn fwy na swm ei rannau unigol.

## *Rheoli Anghenion Busnes*

Un o'r gwersi pwysicaf a ddysgwyd gan Fargen Twf Bae Abertawe (ac i ryw raddau Bargen Twf Gogledd Cymru) yw y gall nifer o ffactorau newid dros amserlen datblygu Bargen Twf, boed hynny'n rhagolygon byd-eang sy'n newid ac yn effeithio ar archwaeth risg/buddsoddi'r sector preifat, amgylchiadau prosiect sy'n newid, neu dirwedd polisi/cyllido cenedlaethol sy'n newid.

Mae Adolygiad Annibynnol Actica Consulting o Fargen Ddinesig Bae Abertawe[33] yn amlinellu canfyddiadau clir mewn perthynas â strwythuro a datblygu'r Fargen gyda'r argymhelliad clir i fabwysiadu dull Portffolio wrth reoli a chyflenwi'r Fargen yn y dyfodol.


Felly bydd Bargen Twf Canolbarth Cymru yn cael ei strwythuro gydag egwyddorion Portffolio, Rhaglen a Rheoli (P3M3) Prosiect wrth ei gwraidd o'r cychwyn cyntaf.




Bydd hyn yn sicrhau bod dull gweithredu a methodoleg glir i greu'r amgylchedd cywir sy'n galluogi'r rhanbarth i:

- ymateb i heriau a chyfleoedd economi Canolbarth Cymru trwy adolygiad parhaus gan sicrhau bod y gweithgarwch iawn yn cael ei ddatblygu a'i gyflenwi i gyflawni ein canlyniadau.
- sicrhau bod unrhyw gyfleoedd buddsoddi newydd heb eu colli.
- cynnal rôl barhaus glir a chredadwy mewn trefniadau llywodraethu ac ymgysylltu trwy gylch bywyd y buddsoddiad.
- rhoi'r hyder i ddarpar bartneriaid cyflenwi i fwrw ymlaen â gweithgarwch datblygu sy'n cadw'r risgiau o weithgarwch datblygu a allai fod yn rhy gynnar i'r lleiaf posibl.

[33] Actica Consulting (2019) Adolygiad Annibynnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe – PC828D002 v1.0





## *Egluro Egwyddorion y Fargen Twf*

Mae gan gyllid y Fargen Twf ar draws y DU nodweddion allweddol penodol:

- cyllid cyfalaf yn unig (dim refeniw)
- hirdymor (proffil 10-15 mlynedd ar gyfartaledd)
- wedi'i ysgogi gan fargen – rhaid iddo gydweddu a chael ei chytuno gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru
- rhaid iddo ddangos achos cryf dros fuddsoddi ac ychwanegedd sy'n fwy na 'busnes fel arfer' (rhaid iddo fod yn drawsffurfiol)
- creu cyllid cyfatebol ychwanegol o amrywiaeth o ffynonellau (gan gynnwys y sector preifat)
- partneriaeth gryf rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat a phrosesau llywodraethu, rheoli a sicrwydd clir, cadarn ac atebol.

Mae'n rhaid i Fargen Twf gyd-fynd hefyd â pholisi strategol a chyd-destun cyflenwi ehangach:




## *Egwyddorion Sylfaenol*

Mae rôl gan bob sector i'w chwarae o fewn economi Canolbarth Cymru i gyflawni twf economaidd.

Fodd bynnag, bydd rhaid i ni benderfynu ar y buddsoddiadau strategol priodol ar gyfer cyflawni ein hamcanion twf sy'n adeiladu ar gofnod llwyddiant ein cryfderau diwydiannol, ymchwil a marchnad lafur presennol, ac mae'n rhaid iddo gysylltu ag anghenion Canolbarth Cymru a rhoi sylw iddynt.

Mae cyfleoedd unigryw gan Ganolbarth Cymru ond hefyd heriau mawr y mae angen eu goresgyn. Bydd y ffordd y mae'r rhanbarth yn strwythuro ei Fargen Twf yn dibynnu ar lefel y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i roi sylw i gyfleoedd a heriau. Bydd angen mabwysiadu ymagwedd ddeublyg at gefnogi cyfleoedd ond hefyd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaeth ar draws Canolbarth Cymru os ydym yn wirioneddol am ddatblygu a chyflawni twf cynaliadwy a chynhwysol.

Oherwydd bod y Fargen Twf yn un cyfalaf yn unig, bydd peth o hyn yn golygu ail-leoli ac ail-gysoni cyflenwad presennol o ran cymorth busnes a sgiliau er mwyn rhoi sylw gwell ac ymateb yn well i'n heriau, gan gydweddu â'n Fargen Twf. Bydd gwneud hynny law yn llaw yn hanfodol i lwyddiant ein darpariaeth. Bydd gwneud hynny ar ei ben ei hun yn parhau i fethu ein heconomi.

# 4. Yr Achos Economaidd Datblygol

## *Meysydd Rhaglen ac Amcanion Buddsoddi*

I ddatblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru rydym yn cynnig tri maes rhaglen rhyng-gysylltiedig. Mae'r rhain wedi cael eu llunio a'u cysoni â chwmpas cyllid y Fargen Twf, a'u cysoni yr un pryd â'r Strategaeth gyffredinol, ac wedi'u cysylltu'n glir â'n Hamcanion Strategol.

| Maes Rhaglen Arfaethedig | Amcanion Buddsoddi Posibl |
|---|---|
| **Ehangu ein Heconomi:**<br><br>Datblygu cyfleoedd newydd o'n hasedau gan ganolbwyntio ar gyfleoedd gwerth uchel sy'n cefnogi twf. | ➤ Buddsoddiadau cyfalaf wedi'u targedu sy'n cryfhau asedau ymchwil ac arloesi rhanbarthol i greu/gryfhau clystyrau diwydiannol sy'n ysgogi cyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch a datblygu sgiliau.<br>➤ Buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu mewn asedau naturiol/amgylcheddol presennol a fydd yn creu twf economaidd arwyddocaol ac yn sbarduno gwelliannau i'r sector er mwyn rhoi sylw i wariant, lledaeniad a natur dymhorol y sector twristiaeth.<br>➤ Buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu mewn cyfleoedd allweddol i gryfhau'r sector bwyd a diod yn rhanbarthol ac ysgogi twf busnesau a thwf cyflogaeth ychwanegol. |
| **Cryfhau ein Heconomi**<br><br>Cefnogi ein diwydiannau a'n gweithlu presennol i fod yn fwy cydnerth trwy adeiladu capasiti a chreu'r amodau iawn ar gyfer twf yn y dyfodol. | ➤ Sicrhau cyflenwad digonol o safleoedd ac adeiladau o safon uchel i annog ehangu ac arloesi wedi'i gysoni ag anghenion busnes pob un o'r tair Rhaglen.<br>➤ Darparu seilwaith sgiliau o safon uchel wedi'i gysoni â blaenoriaethau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol ehangach sy'n dod i'r amlwg.<br>➤ Buddsoddiadau strategol mewn cyfleoedd twf carbon isel ac ynni glân trwy arloesi, datblygu a chyflenwi mentrau newydd. |
| **Cysylltu â'n Heconomi**<br><br>Gwella gallu digidol a chysylltedd o fewn, ar draws a'r tu allan i'r rhanbarth i sicrhau bod y rhanbarth yn lle deniadol i weithio, byw a chwarae. | ➤ Buddsoddiadau strategol i wella cysylltedd seilwaith digidol/cefnogi safleoedd cyflogaeth allweddol.<br>➤ Buddsoddiadau wedi'u targedu mewn seilwaith ffyrdd/rheilffyrdd â blaenoriaeth i ddatgloi cyfleoedd.<br>➤ Arwain ar weithgarwch i ddatblygu cyfleoedd economaidd newydd trwy ddatgarboneiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth (wedi'i gysoni â'r amcan carbon isel a thwf glân). |

Fodd bynnag, rhaid ailadrodd y gall y Fargen Twf gael ei gyflenwi ochr yn ochr â buddsoddiad diriaethol gan y Llywodraeth yn unig ac ail-lunio blaenoriaethau a fydd yn galluogi:

- Teilwra mynediad rhanbarthol i gymorth busnes a chyllid er mwyn galluogi ac ysgogi twf.
- Rhaglenni gwariant seilwaith cyhoeddus arwyddocaol i ddatgloi cyfleoedd ffyrdd/rheilffyrdd pellach o ran symudedd cymdeithasol ac economaidd. Cefnogi symudiad llafur a chefnogi cadwyni cyflenwi busnes.
- Cryfhau ecosystem sgiliau a chyflogaeth Canolbarth Cymru. Bydd yn hanfodol i gydlynu'r seilwaith ar y cyd â sgiliau ymatebol a rhaglenni cyflogaeth sy'n cefnogi'n ddigonol economi Canolbarth Cymru/.
- Amlinellu disgwyliad clir gan y rhanbarth lle rydym yn bwriadu rhoi ein cynnig Bargen Twf gerbron y Llywodraeth i gytuno ar Benawdau'r Telerau.

## *Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a Methodoleg Asesu*

Mae'n bwysig sefydlu methodoleg glir ar y cychwyn er mwyn i'r rhanbarth allu penderfynu ar y buddsoddiadau priodol ar draws ei bortffolio o raglenni a phrosiectau.

Cynigir y fethodoleg asesu ganlynol:

| **Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a Methodoleg Asesu** | | |
|---|---|---|
| Cyd-fynd yn Strategol | • Wedi'i gysoni'n strategol ac yn uchelgeisiol.<br>• Yn gydnaws ag egwyddorion y Fargen Twf<br>• Yn gydnaws â chanlyniadau'r Fargen Twf Strategol<br>• Yn arddangos ychwanegedd, nid busnes fel arfer<br>• Cyfatebiaeth â pholisi cenedlaethol y DU/Cymru<br>• Cyd-fynd â'r ddaearyddiaeth economaidd (h.y. capasiti/gallu cadwyn gyflenwi ranbarthol) | 25% |
| Gallu i gyflenwi | • Ymrwymiad/hanes blaenorol partner cyflenwi<br>• Cadwyn cyflenwi a sgiliau<br>• Amserlen<br>• Cyfyngiadau allweddol (e.e. perchnogaeth, cynllunio, rheoleiddiol ac ati)<br>• Dibyniaethau<br>• Risgiau ac ansicrwydd | 20% |
| Fforddiadwyedd | • Yn gydnaws ag egwyddorion cyllido'r Fargen Twf<br>• Argaeledd cyllid (pecyn cyfan)<br>• Gwerth am arian – cymhareb cost budd (cost y prosiect yn erbyn allbwn economaidd) | 20% |
| Canlyniadau Diriaethol – Prosiectau | • Canlyniadau wedi'u modelu<br>• Effaith ddisgwyliedig a matrics dadleoli<br>• Asesiad Effaith Lleol/Rhanbarthol/Cenedlaethol | 25% |
| Canlyniadau Diriaethol – Rhaglenni | • Sut mae'r canlyniadau yn cyfrannu at amcanion Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r effaith gyffredinol | 10% |

# 5. Achosion Economaidd a Masnachol Datblygol

Trwy gydol datblygiad y ddogfen hon, mae'n glir nad oes gan Ganolbarth Cymru brinder o syniadau prosiect da a rhagolygon realistig o fuddsoddiad sector preifat.

Fodd bynnag, mae strwythuro Bargen Twf Canolbarth Cymru yn gofyn am broses glir lle y gall partïon â diddordeb roi eu cynigion gerbron i'w hystyried a gellir eu hasesu yn unol â'u potensial i gyflawni canlyniadau diriaethol ar gyfer economi Canolbarth Cymru.


## *Datblygu'r Achosion*

Gwahoddir Achosion Busnes Strategol Prosiectau o ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon.

Bydd y cyfle ar gael i bob darpar bartner cyflenwi yn dilyn proses ddidoli gychwynnol (meini prawf yn cydweddu â chynnwys y ddogfen hon).

Bydd Achosion Busnes Strategol Prosiectau yn cael eu coladu a'u hasesu gan y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn ôl y fethodoleg asesu amlinellol.

Yna bydd angen cynnal gweithdai rhwng gweision sifil a swyddogion y Swyddfa Rheoli Rhaglen i herio, llunio a chadarnhau'r ffordd ymlaen a ffafrir.




Bydd y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn chwarae rôl sicrwydd cryf ochr yn ochr â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i arwain a rheoli'r broses ddatblygu. Bydd rhaid i Gynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig fod yn ei le o'r cychwyn cyntaf sy'n sefydlu'n eglur ac yn diffinio rôl swyddogion y Swyddfa Rheoli Rhaglen ochr yn ochr â gweision sifil. Bydd yn egluro disgwyliadau'r Llywodraeth mewn perthynas â sicrwydd (e.e. adolygiadau Gateway).

Bydd sicrhau asesiadau Cymorth Gwladwriaethol yn cael llawer o sylw ochr yn ochr â chynigion diwydrwydd dyladwy cadarn. Bydd rhaid i hyn gael sylw yn y model sicrwydd fel rhan o ddull gweithredu'r Swyddfa Rheoli Rhaglen.

Bydd canlyniad y broses hon yn arwain at ddatblygu achos economaidd ar gyfer y tair rhaglen. Bydd hyn yn llywio camau nesaf datblygu wrth i'r rhestr fer gael ei datblygu.

Bydd yn debygol y gall aeddfedrwydd y cynigion prosiect fod yn amrywiol o hyd ar y cam hwn. Fodd bynnag, bydd yr opsiwn ar gael yma i'r Swyddfa Rheoli Rhaglen wneud penderfyniad i grwpio'r prosiectau sydd "ar y blaen" sy'n fwy datblygedig i geisio awdurdod y cyd-bwyllgor i symud ymlaen i'r achos busnes amlinellol. Bydd y prosiectau sy'n weddill ar y rhestr fer nad ydynt yn barod eto ar gyfer achos busnes amlinellol yn cael sylw yn yr achos busnes rhaglen, ond gyda manylion y prosiectau i'w dilyn yn ddiweddarach.

Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu y bydd Canolbarth Cymru yn barod i gytuno ar y Penawdau Telerau ar sail y tair rhaglen a reolir fel Portffolio o fewn amlen gyllido ddiffiniedig.

Bydd angen ystyried yr achos masnachol ar gyfer y tair rhaglen wrth i farn ar weithgarwch rhaglen ddatblygol fod yn gliriach. Bydd angen ystyriaeth gryf o gaffael a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen fel rhan o weithgarwch rhaglenni.

# 6. Sefydlu'r Achos Ariannol

Yn Nhachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fuddsoddiad cychwynnol o £55m, wedi'i ddisgrifio fel blaendal yn lle derbyn cynigion uchelgeisiol a mwy manwl y rhanbarth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dangos ei gymorth parhaus ar gyfer Bargen Twf i Ganolbarth Cymru gyda'r cwantwm i'w negodi.

Mae cynsail Bargeinion Dinesig/Twf eraill yng Nghymru yn awgrymu y bydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn cyfateb â buddsoddiad Llywodraeth y DU yn llawn. Ceir cynsail hefyd gan fargeinion eraill ein bod yn ceisio strwythuro bargen sydd hefyd yn trosoleddu lefelau buddsoddiad tebyg o ran cyllid cyfatebol (o'r sector preifat a ffynonellau eraill).

Gan fod Llywodraeth y DU wedi disgrifio buddsoddiad cychwynnol o £55m fel 'blaendal', byddai'n briodol i hyn gael ei gyfateb i gychwyn gan Lywodraeth Cymru yn y tymor byr wrth i gynigion y cynnig gael eu datblygu ymhellach. Dim ond pan ddaw uchelgais cyffredinol y cynigion buddsoddi yn glir y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried cwantwm cyffredinol cymorth y Fargen Twf.

Gan weithio ar dybiaeth y "trydedd egwyddor" y mae'r Bargeinion Twf eraill wedi gweithio arni, byddai hyn yn golygu pecyn cyllido cychwynnol sy'n cynnwys:

- Llywodraeth y DU: £55m
- Llywodraeth Cymru: £55m
- Cyllid Cyfatebol wedi'i Drosoleddu: £55m

Mae ein Cynllun Economaidd Strategol yn Adran 1 o'r ddogfen yn disgrifio'n eglur amrywiaeth eang o gyfleoedd buddsoddi sydd eu hangen ar Ganolbarth Cymru ar frys sydd yn fwy na chyfanswm gwerth o £165m.

Bydd gwireddu ein huchelgais i adennill a thyfu ein potensial economaidd yn golygu buddsoddiad arwyddocaol i dyfu maint a chynhyrchiant ein heconomi trwy gyfrwng un weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth yn y rhanbarth, a bydd y Fargen Twf yn chwarae rhan allweddol o gymysgedd cyllido ehangach.

Mae gwireddu'r strategaeth cludo nwyddau ar y cyd â Phartneriaeth Menter Leol y Gororau yn un enghraifft o becyn o fuddsoddiadau mewn seilwaith trafnidiaeth a fyddai'n llawer mwy na'r ffigurau a nodir uchod.

Bydd ymateb i oblygiadau economaidd pandemig y Coronafeirws yn hollbwysig, ond rydym yn gwybod yn iawn y bydd cyflenwad cyfyngedig o gyllid cyhoeddus a phreifat. Mae'n hanfodol felly bod ein dull gweithredu cydweithredol yn dod â'r actorion perthnasol at ei gilydd i wneud y defnydd gorau o adnoddau at bwrpas cyffredin.


Felly bydd y rhanbarth yn ceisio trafod y pecyn cyllid yn ffurfiol â'r ddwy Lywodraeth, ochr yn ochr â datblygiad cydweithredol a chysoni buddsoddiadau strategol, a bydd hyn i gyd yn chwarae ei ran wrth gryfhau economi Canolbarth Cymru.

# 7. Yr Achos Rheoli

Mae partneriaid Canolbarth Cymru wedi buddsoddi llawer o amser ac ymdrech i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu a rheoli priodol yn eu lle i gyflawni'r Fargen Twf o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys llofnodi cytundeb rhyng-awdurdod[34] rhwng Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion, ochr yn ochr â threfniadau llywodraethu a rheoli clir i fwrw ymlaen â'r Penawdau Telerau.

## *Trefniadau sefydledig*

Mae'r cytundeb rhyng-awdurdod yn rhoi trefniadau clir yn eu lle i'r ddau awdurdod lleol gydweithio, y cylch gorchwyl ar gyfer fforymau gwneud penderfyniadau a chynghorol allweddol a swyddogaethau'r awdurdodau.




[34] Copi ar gael yn Atodiad 2

Bydd cytundeb rhyng-awdurdod eilaidd (cytundeb llywodraethu) yn cael ei ddatblygu wrth i ni agosáu at Benawdau'r Telerau i sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu'r trefniadau hyn i fodloni anghenion y Fargen Twf ar gyfer y cam cyflenwi.

## *Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru*

Mae sefydlu'r cytundeb rhyng-awdurdod hefyd wedi amlinellu rôl y grŵp swyddogion gweithredol o'r enw y "Grŵp Rheoli", gan ddarparu cyfeiriad rheolaethol i gefnogi swyddogion a rhoi cyngor i'r cyd-bwyllgor. Mae hyn yn cynnwys:

- Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth i swyddogion trwy osod amcanion a blaenoriaethau ar gyfer gwaith i'w ddatblygu yn unol â'r rhaglen waith ar gyfer cyflwyno achosion busnes.
- Monitro cynnydd y rhaglen waith, adnabod a rheoli risgiau a materion, a darparu adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd.
- Cefnogi'r Bwrdd gydag adroddiadau sy'n amlinellu argymhellion clir lle mae angen gwneud penderfyniadau.
- Rheoli adnoddau yn unol â'r cyllidebau a ddyrennir i'r gwaith.

## *Swyddog Rheoli Rhaglen*

Ochr yn ochr â llywodraethu rhanbarthol, mae datblygu'r Swyddfa Rheoli Rhaglen i gefnogi datblygiad y Fargen Twf sy'n eistedd o dan Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru ar y gweill ar hyn o bryd.

Hyd yma mae'r Swyddfa Rheoli Rhaglen wedi parhau i fod yn hyblyg ei ddyluniad a'i weithrediad wrth i ofynion ddatblygu dros amser. Bydd cynigion ar gyfer datblygu ac ehangu pellach yn cael eu hystyried gan ddefnyddio swyddogion o'r ddau awdurdod lleol a phartneriaid rhanbarthol perthnasol sy'n gweithio gyda'i gilydd fel un tîm.

Bydd y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn chwarae rôl allweddol o ran:

- **Cymorth Llywodraethu:** Cydlynu a gwasanaethu anghenion busnes pwyllgorau rhanbarthol.
- **Rheolaeth Gweithredol:** Pobl, Cyllideb, Risgiau a Materion, Cynllunio Strategol ac Adrodd am Weithgarwch
- **Datblygu Rhaglen:** Trefnu a chydlynu ffrydiau gwaith, ymgysylltiad â phrosiectau a datblygu prosiect/cymorth gan noddwyr.
- **Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Cydlynu negeseuon allweddol a gweithgarwch cyfathrebu.
- **Cydlynu ar draws gweithgarwch rhanbarthol ehangach:** cyllid yr Undeb Ewropeaidd (RET), Trafnidiaeth (TRaCC) a chyllido adfywio.

Mae sefydlu'r capasiti a'r gallu iawn i ateb ein hanghenion busnes fel rhan o ddatblygu a chyflenwi'r Fargen Twf wedi cael ei farnu'n hanfodol gan y Bwrdd.

Bydd cyllid cychwynnol gan awdurdodau lleol ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru yn helpu i ddatblygu capasiti ymhellach, gyda chynigion gweithredol yn cael eu datblygu trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cymorth ar gyfer hyfforddiant 5 achos busnes cychwynnol sy'n cael ei sefydlu.


Bydd strwythur staffio'r swyddfa yn parhau i gael ei ddatblygu yr un pryd ag anghenion datblygol y Fargen Twf ac er mwyn cydweddu â disgwyliadau'r ddwy Lywodraeth.

### *Rheoli perfformiad, monitro a gwerthuso*

Bydd rheoli ein hymagwedd fel Portffolio yn gofyn am ddolenni adborth parhaus sy'n cysylltu agweddau ar sicrwydd rhaglen, effaith economaidd wedi'i fodelu, monitro a gwerthuso i sicrhau bod gweithgarwch wedi'i gynllunio, datblygu a chyflenwi gweithgarwch yn parhau i ateb ein hanghenion busnes.

Mae ein strwythurau llywodraethu a rheoli wedi cael eu sefydlu i ddarparu ffordd o weithio ac ymagwedd sy'n galluogi cylch parhaus o sicrwydd ac adolygu trwy:

- Swyddfa Rheoli Rhaglen wedi'i diffinio'n eglur
- Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig a fydd yn sefydlu prosesau clir
- Monitro a gwerthuso cadarn a pharhaus a fydd yn parhau i lywio a llunio cyfeiriad y Portffolio.




## 8. Amserlen Ddangosol

Mae'r broses arfaethedig a'r amserlen ddangosol ar gyfer sut y bwriadwn strwythuro ein cynnydd dros y misoedd nesaf i'w gweld isod. Mae'n amserlen ddangosol ac yn destun newid trwy gydol y cyfnod i ddod wrth i fanylion gael eu negodi a'u dyblygu'n ffurfiol â'r ddwy Lywodraeth, ac wrth i bartneriaid cyflenwi ddechrau llunio gweithgarwch prosiect posibl.

**2018-2020**

- Sefydlu'r Cyd-destun Strategol ac Adeiladu Achos dros Newid
- Datblygu Strategaeth ac Ymgysylltu Helaeth â Rhanddeiliaid
- Trefniadau Llywodraethu Ffurfiol wedi'u Sefydlu
- Sefydlu Trefniadau Adnoddau a Rheoli (Swyddfa Rhaglen)

**Ch2 2020**

- **Cyflwyno'r ddogfen hon i'r ddwy Lywodraeth**
- Cychwyn trafodaethau ffurfiol â'r ddwy Lywodraeth ynghylch y Fargen Twf a Chynllunio Adfywio
- Trefniadau Llywodraeth Ffurfiol yn Weithredol
- Datblygu Cynllun Gweithredu a Strategaeth Ymgysylltu

**Ch3 2020**

- Cytuno a Chyfathrebu'r Cynllun Gweithredu
- Datblygu ymhellach capasiti a gallu rhanbarthol (Swyddfa Rhaglen)
- Dechrau datblygu Rhaglen fanwl ac amlinellu'r broses ar gyfer gwahodd Achosion Busnes Strategol prosiectau

**Ch4 2020 - Q1 2021**

- Blaenoriaethu a Chategoreiddio (prosiectau ar y blaen a cham eilaidd)
- Gwahodd prosiectau ar y blaen i ddatblygu Achosion Busnes Amlinellol
- Trafodaethau manwl â'r ddwy Lywodraeth i sefydlu (Achos Ariannol ac Economaidd a strwythuro Penawdau'r Telerau)
- Datblygu Ail Gytundeb Llywodraethu i gwmpasu'r Cam Cyflenwi
- Datblygu Achosion Busnes Amlinellol cychwynnol ar gyfer prosiectau ar y blaen. Asesu ac adolygu er mwyn symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Llawn.

**Ch2 2021**

- Cytuno ar Benawdau'r Telerau.
- Achosion Busnes Llawn wedi'u hasesu a'u hadolygu.
- Cyflenwi prosiectau cychwynnol yn dechrau (Ch2 2021)

# 9. Ein Hymrwymiad

Mae'r ddau bartner awdurdod lleol yn unedig yn eu penderfyniad i ddatblygu a chyflenwi Bargen Twf Canolbarth Cymru, i weithio'n gadarnhaol â'r Llywodraethau a manteisio ar gyfleoedd pellach ar gyfer y rhanbarth. Rydym wedi cydnabod cryfderau ein heriau cyffredin, ac wedi cytuno bod rhaid i ni wella cydweithrediad os ydym am lwyddo i wireddu'r nodau hyn ar raddfa na allwn ei chyflawni ar ein pennau ein hunain. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio ar draws y rhanbarth gyda'r ddwy Lywodraeth, diwydiant ehangach a rhanddeiliaid allweddol i wireddu'r nodau hyn a sut rydym yn ffurfio cydweithrediadau newydd i gefnogi ein heconomi.

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i helpu i lunio uchelgais sector preifat i gyd-fuddsoddi a datblygu ein potensial, a byddwn hefyd yn edrych ar ein rhaglenni cyfalaf a refeniw i nodi sut y gallwn wneud buddsoddiadau ochr yn ochr â'r Llywodraeth a'r sector preifat i ddatgloi potensial economaidd Canolbarth Cymru.

Mae'r ddogfen hon wedi mynegi'n eglur graddfa'r cynnydd yn y rhanbarth, ond mae hefyd wedi amlinellu rhaglen o waith arwyddocaol sydd o'm blaenau.

Mae'r amserlenni yn optimistaidd, ond yn gyraeddadwy os yw ymdrechion y Llywodraeth yn gyson â'n hymrwymiad a'n penderfyniad i wireddu'r weledigaeth hon.

# 10. Yr Hyn a Ofynnwn gan y Llywodraeth

Yn wyneb effaith y Coronafeirws ar yr economi fyd-eang, gydag effaith arwyddocaol a hirhoedlog ar ddiweithdra, cadwyni cyflenwi a'r ailgydbwyso posibl o sectorau economaidd wrth i gyflenwi a galw newid o ganlyniad i newidiadau mewn ymddygiad a hyder defnyddwyr a busnes, rydym eisoes yn wynebu dirwasgiad, a bydd y goblygiadau sy'n deillio o hynny ar gynaliadwyedd cyllid cyhoeddus yn arwyddocaol.

Bydd gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd prin yn ganolog i'n hymagwedd fel sector cyhoeddus yn y dyfodol. Rhaid i ni ystyried yn gryf rôl y llywodraeth a dulliau llywodraethu ar draws haenau lluosog. Rhaid i ni fod yn glir ac yn ddiamwys yn ein gallu i gydweithio fel un tîm ar draws y DU, Cymru a llywodraeth leol er budd economi Canolbarth Cymru.

Bydd y dull hwn o weithio yn gofyn am gymorth clir, diamwys ac ymrwymiad o ran amser ac adnoddau gan y ddwy Lywodraeth.

Mae awdurdodau Canolbarth Cymru newydd ymrwymo adnoddau cychwynnol arwyddocaol, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i wella trefniadau gweithio rhanbarthol ar gyfer yr economi a sgiliau.

Bydd rhaid i hyn gael ei hybu ymhellach a mynd y tu hwnt i drefniadau cyllido tymor byr mewn pecynnau annibynnol i bolisi a chyflenwi gwirioneddol cyd-luniedig ar lefel ranbarthol.

ATODIADAU

# ATODIAD 1 – Rhestr o Randdeiliaid Ymgysylltiol

Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid dro ar ôl tro trwy gydol datblygiad y ddogfen hon, neu yn flaenorol fel rhan o waith ac ymgysylltiadau cyhoeddedig ehangach, ac mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar yr ymgysylltu hwnnw.

| | |
|---|---|
| • Aber Instruments<br>• AEIC<br>• Agroceuticals Ltd.<br>• Antur Teifi<br>• Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri<br>• Banc Datblygu Cymru<br>• BIC Innovation<br>• Boys and Boden<br>• Busnes Cymru<br>• BVG Airflo Group<br>• Cadno Comms<br>• Canolfan Treftadaeth Canolbarth Cymru<br>• Canolfan y Dechnoleg Amgen (CAT):<br>• CastAlum<br>• CAVO<br>• Celtic Energy Group<br>• Coleg Ceredigion<br>• Coleg y Mynyddoedd Duon<br>• Compact Orbital Gears<br>• Croeso Cymru<br>• Cyd-bwyllgor Iechyd Canolbarth Cymru<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Cyngor Sir Gwynedd<br>• Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru<br>• Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>• Chemostrat<br>• Dawnson Shanahan<br>• Dulas Ltd<br>• Dunbia<br>• Dŵr Cymru<br>• Dyfodol Cambrian Futures<br>• Ecodyfi<br>• Environment Systems<br>• Evabuild<br>• Forest Holidays<br>• Freedom Green Energy<br>• Fre-energy<br>• Ffederasiwn Busnesau Bach<br>• G Jones Construction Ltd<br>• Germinal<br>• Going Green for a Living Community Land Trust<br>• Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot<br>• Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru<br>• Grŵp Morol<br>• Gwyl y Dyn Gwyrdd<br>• HSBC | • Lantra<br>• Lanyon Bowdler<br>• Larkhill Consulting<br>• Leonardo Company<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Makefast<br>• Menter a Busnes<br>• Motif Creative<br>• Newmor<br>• Northern Industrial Battery Services (NiBS)<br>• Paramgan Hutchinson<br>• Partneriaeth Camlas Sir Drefaldwyn<br>• Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru<br>• Partneriaeth Menter Leol y Gororau<br>• Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru<br>• Partneriaethau Lleol<br>• PAVO<br>• PCI Pharma<br>• Potters Waste Management<br>• Prifysgol Aberystwyth<br>• Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant<br>• Prifysgol De Cymru<br>• Princes Foundation<br>• Qinetiq<br>• Rachel's Dairy<br>• Radnor Hills<br>• Randall Parker Foods<br>• Rebo UK<br>• Res Group<br>• Riversimple<br>• Scottish Power Energy Networks<br>• Severn Trent Water / Hafren Dyfrdwy Severn Wye Energy Agency<br>• Siambr Fasnach Canolbarth Cymru<br>• Stagecraft<br>• Tastetraders<br>• Trax JH<br>• Tregroes Waffles<br>• TSR Surveyors<br>• Twristiaeth Canolbarth Cymru<br>• Thales<br>• The Green Valleys CIC<br>• Undeb Amaethwyr Cymru<br>• Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr<br>• Volac International<br>• Welsh Sausage Company<br>• Western Power |

| | |
|---|---|
| • Hyfforddiant Cambrian<br>• Iechyd a Gofal Gwledig Cymru<br>• Ingram Networks<br>• Innogy Renewables UK Ltd<br>• Invertek Drives<br>• Labordy Amddiffyn Gwyddoniaeth a Thechnoleg | • Westflight<br>• Wynnstay Plc<br>• Ymddiriedolaeth Strata Florida<br>• Yr Ymddiriedolaeth Garbon |

# ATODIAD 2 – Cytundeb Rhyng-awdurdod Tyfu Canolbarth Cymru

*Atodwyd ar wahân*